**PDZ 17 YNYS GYBI A GORLLEWIN YNYS MÔN:**



*Rhoscolyn*

# Twyn y Parc i Dwyn Cliperau.

## CYNNWYS

Tudalen


PDZ 17 YNYS GYBI A GORLLEWIN YNYS MÔN: ... 10

1 Disgrifiad Lleol ... 13

2 Prosesau'r Arfordir ... 18

3 Senarios Rheoli ... 23

4 Cymhariaeth ac Asesiad Cryno o Senarios man cychwyn. ... 32

5 Trafodaeth a Datblygu Polisi Manwl ... 37

6 Crynodeb Rheoli. ... 42




*Parth Datblygu Polisi 17*

## Diffiniadau o Senarios a Ystyriwyd wrth Ddatblygu Polisi

Mae'r adran hon yn diffinio'r amrywiol senarios sy'n cael eu defnyddio o hyd wrth drafod y Parth Datblygu Polisi.

| Cynnydd yn Lefel y Môr |
|---|
| Mae'n cael ei dderbyn bod ansicrwydd o hyd ynghylch cynnydd yn lefel y môr (SLR). Gall cymryd gwahanol senarios cynnydd yn lefel y môr effeithio ar faint unrhyw effaith neu amseriad rhai newidiadau, naill ai o ran rheoli cynaliadwy neu o ran effeithiau. Yn y drafodaeth isod o'r senarios rheoli man cychwyn a gwahanol, defnyddiwyd canllawiau DEFRA ar gynnydd yn lefel y môr yn gyffredinol. Pan fo teimlad, yn unrhyw ardal benodol, bod effaith cynnydd yn lefel y môr yn arwyddocaol ac y gallai newid cyd-destun rheoli, caiff y drafodaeth hon ei chynnal mewn blwch ar wahân, perthnasol i'r darn hwnnw o destun. |

**Senarios rheoli;**

*Senario Digyfyngiad*
Dan y senario hwn, caiff ymddygiad yr arfordir ei ystyried fel pe na bai unrhyw amddiffynfeydd o waith dyn, i bob diben fel pe na baent yno mwyach yn ddirybudd. Er bod rhaid cydnabod mai senario hollol ddamcaniaethol yw hwn, mae'n rhoi gwell dealltwriaeth o sut ydym yn dylanwadu ar ymddygiad yr arfordir ac, felly, y pwysau ac effaith ehangach sy'n cael eu cyflwyno. Mae hyn yn cynorthwyo asesu'n gyntaf sut fyddai'r arfordir eisiau newid, ond hefyd mae'n cynorthwyo diffinio terfynau rhyngweithiad y dylai'r CRhT fod yn eu hystyried.


*Senarios Man Cychwyn*
- ***Dim Ymyriad Gweithredol (NAI) – Senario 1**,* lle na fyddai unrhyw waith ychwanegol i gynnal neu newid amddiffynfeydd. Ar ddiwedd eu bywyd gweddilliol, byddai adeileddau'n methu. Ni fyddai uchder amddiffynfeydd yn cael ei gynyddu i wella safonau amddiffyniad.
- ***Gyda Rheoli Presennol (WPM) – Senario*** **2**. Mae'r senario hwn yn cymhwyso'r polisïau a bennwyd yn CRhT1 neu, pan fo hynny'n berthnasol, mae'n derbyn polisïau a ddiweddarwyd neu a eglurwyd, os gwnaed gwaith dilynol, e.e. astudiaethau neu strategaethau. Mewn llawer o fannau, nid yw'r agwedd at reolaeth a ddiffiniwyd yn CRhT1 ond yn cwmpasu cyfnod o 50 mlynedd. Os felly y mae, tybiwyd mai'r bwriad yw dal i reoli'r arfordir yn y dyfodol fel y mae heddiw. Dylid nodi nad yw WPM o angenrheidrwydd yn awgrymu Cadw'r Llinell ymhob rhan o'r parth. Mewn llawer man gall rheoli presennol fod yn Ddim Ymyriad Gweithredol neu Adlinio Rheoledig.

Nod Dim Ymyriad Gweithredol yw nodi beth sydd mewn perygl pe na bai amddiffynfeydd yn cael eu cynnal. Yn yr un modd, bwriad Gyda Rheoli Presennol yw ymchwilio sut all yr arfordir ddatblygu, gan nodi lle mae buddiannau wrth reoli fel hyn neu ble gall problemau godi yn y dyfodol.

Ar ddiwedd yr isadran hon mae crynodeb a chymhariaeth o'r perygl economaidd ar gyfer pob un o'r senarios man cychwyn, seiliedig ar ddadansoddiad MDSF a wnaed yn ystod CRhT (gan gynnwys canlyniadau astudiaethau eraill pan fo hynny'n berthnasol). Caiff y senarios man cychwyn eu hasesu hefyd o ran sut maent yn rhoi sylw i'r amcanion cyflawn ar gyfer y Parth. Y gymhariaeth hon rhwng y senarios man cychwyn sy'n paratoi'r llwyfan ar gyfer trafod senarios rheoli eraill posibl sy'n rhoi gwell sylw i bob mater. Mae'r drafodaeth hon yn yr isadran ddilynol.

# 1 Disgrifiad Lleol

Mae'r parth yn cwmpasu'r arfordir rhwng Twyn y Parc, y pentir i'r gogledd o Aber Afon Cefni, a Thwyn Cliperau, y pentir yn ne Porth Tywyn Mawr sydd, i bob diben, yn diffinio maint rhan fewnol Bae Caergybi. Mae'r parth yn cwmpasu mwyafrif arfordir gorllewinol Ynys Môn gan gynnwys Ynys Gybi. Cymysgedd Gwna yw clogwyni pen deheuol yr uned, tra bo clogwyni Ynys Gybi'r sgist gwyrdd o'r Grŵp *New Harbour* yn bennaf. Rhwng y brigiadau craig galed hyn mae dyffryn Afon Ffraw a foddwyd, y tir isel o gwmpas Rhosneigr yn ymestyn tua'r gogledd i'r Fali, y tir cymharol isel o gwmpas y Môr Mewndirol rhwng tir mawr Ynys Môn ac Ynys Gybi, a chlogwyni clai ardal ddeheuol Bae Caergybi a dyffryn Afon Alaw.



**Map lleoliad rhan ddeheuol y parth**

I'r gogledd o Dwyn y Parc mae'r clogwyni'n disgyn i'r Traeth Mawr a cheg Afon Ffraw. Boddwyd dyffryn yr afon hon ar ddiwedd y rhewlifiant diwethaf ac fe'i llenwyd â gwaddod wedyn i gynhyrchu'r gyfundrefn dwyni helaeth sydd yno heddiw. Caiff y twyni hyn eu cydnabod yn rhyngwladol oherwydd eu gwerth amgylcheddol ac, fel y cyfryw, dynodwyd hwy'n ACA, AGA a SoDdGA. Saif pentref bach Aberffraw ar fin yr aber ar yr A4080, y briffordd sy'n cysylltu'r pentrefi ar ochr dde-orllewinol Ynys Môn. Amddiffynnwyd yr eiddo gan fur carreg ac mae'r cyfleusterau yn y pentref yn cynnwys ysgol, swyddfa bost a thafarn, yn ogystal â chanolfan treftadaeth. Mae amryw adeiladau rhestredig yn y pentref a dynodwyd Pont Aberffraw'n Heneb Restredig. Awgrymwyd bod y ffordd a'r bont, trwy sefydlogi sianel yr afon ar ochr ogleddol yr aber, wedi cynyddu tuedd yr aber i ailgronni'n sylweddol. Fodd bynnag, mae maint ac adeiledd y gyfundrefn dwyni enfawr hon, sy'n codi ymhell uwchlaw lefel dŵr eithafol hyd yn oed, yn ei gwneud yn debygol mai eilaidd yw unrhyw effaith o'r fath.

Yn y Trwyn Du, y pentir i'r gorllewin o'r Traeth Mawr, mae Heneb Restredig ar ben y clogwyni; Carnedd Gron y Trwyn Du.

Rhwng y Traeth Mawr a Phorth Nobla mae'r clogwyni'n dychwelyd, gyda dim ond baeau bach Porth Cwyfan a Phorth Trecastell yn torri ar eu traws. Ym Mhorth Cwyfan, saif eglwys Cwyfan Sant ar ynys fach yn y bae, i'w chyrraedd dros sarn, a dynodwyd yr eglwys a'r mur cynnal yn adeiladau rhestredig. Dynodwyd y clogwyni i'r gorllewin o Borth Cwyfan oherwydd eu gwerth amgylcheddol fel rhan o SoDdGA Tŷ Croes. Tu hwnt i hyn mae'r clogwyni'n disgyn i fae bach Porth Trecastell sydd â thwyni y tu ôl iddo â maes parcio ar eu pennau. Rhed yr A4080 yn union y tu ôl i'r maes parcio.

Mae dwy heneb restredig ar y clogwyni rhwng Porth Trecastell a'r bae nesaf tua'r gogledd, Porth Nobla; Claddgell Barclodiad-y-gawres a charnedd gron Mynydd Bach. Ym Mhorth Nobla mae'r A4080 yn rhedeg yn agos y tu cefn i'r bae a thu draw i'r ffordd mae casgliad o eiddo, un ohonynt yn rhestredig.

O Borth Nobla tua'r gogledd i gyfeiriad Rhosneigr mae traeth tywodlyd di-dor gyda thwyni tywod y tu ôl iddo a brigiadau craig yma ac acw ar y blaendraeth. Mae clwstwr o eiddo yng Ngherrig y Defaid â morglawdd yn eu hamddiffyn.


Rhosneigr



Rhosneigr


Afon Crigyll

Rhosneigr yw'r anheddiad mwyaf sylweddol ar arfordir de-orllewinol Ynys Môn. Mae mynediad ar hyd dolen o'r A4080 ac mae yno orsaf ar y brif reilffordd i Gaergybi. Darparwyd gwasanaethau niferus ar gyfer y gymuned ehangach gan gynnwys gorsaf heddlu, gorsaf dân, ysgol a llyfrgell. Saif prif ran y dref ar frigiad craig galed sy'n llunio a rheoli'r arfordir cyfagos. Ar hyd crib y traeth mae morgloddiau amddiffyn amrywiol eiddo glan y môr rhag erydiad arfordirol ac mae'r eiddo'n ffurfio datblygiad bron yn ddi-dor ar hyd y draethlin. Ar waethaf pwysigrwydd y dref fel cyrchfan ymwelwyr, nid oes unrhyw lan môr ffurfiol. Y traeth yw prif ganolbwynt yr atyniad ac mae'n bwysig ar gyfer defnydd traeth teuluol traddodiadol, brigdonni a hwylio cychod bach. Mewn llawer man caiff rhan uchaf y traeth ei ddefnyddio ar gyfer cadw cychod cyffredinol.

Mae'r brif ffordd fynediad o'r de'n rhedeg ar draws y rhwystr twyni cymharol uchel o flaen Llyn Maelog (SoDdGA). I'r gogledd, mae'r ffordd ddolen yn rhedeg ar draws rhan o orlifdir Afon Crigyll. Mae Afon Crigyll yn cyrraedd y môr yn union i'r gogledd o Rosneigr ac mae'n gwahanu'r dref o ben deheuol maes awyr RAF Valley. Mae ceg yr afon yn gymharol gul wrth dorri trwy ardal o dwyni ac mae ei gorlifdir wedyn yn ehangu ymhellach i'r tir y tu ôl i Rosneigr. Lleolwyd amryw asedau yn yr ardal hon gan gynnwys maes carafanau, cwrs golff, rheilffordd a chyrion RAF Valley.

I'r gogledd o Afon Crigyll mae RAF Valley rhwng y rheilffordd a'r arfordir. Y blaendraeth yw traeth tywodlyd llydan a chyfundrefn dwyni Traeth Crigyll yn rhedeg i Draeth Cymyran, gyda chrib gulach o dwyn a graean y tu cefn. Dynodwyd brigiad craig Ynys Feurig, sy'n rhannu'r ddau draeth hyn, yn AGA a SoDdGA.

Y tu hwnt i Draeth Cymyran mae ceg y Môr Mewndirol sy'n gwahanu Ynys Gybi o Ynys Môn. Yn nodweddu'r culfor hwn mae nodweddion aberol gydag ardaloedd eang o forfa heli a gwastadedd llaid yn y mannau mwy cysgodol, a darnau o frigiadau craig galed yn sefydlogi'r brif sianel.


Rhwng y fath greigiau mae'r geg ddeheuol, gyda pharth rhynglanwol tywodlyd lletach yn union o fewn y geg. Mae hyn yn newid i barth rhynglanwol tywodlyd mwy lleidiog tua'r gogledd o fewn y culfor. Mae dyrnaid o eiddo yn yr ardal hon ond yn bennaf ar y creigiau

uwch. Hefyd dynodwyd casgliad o safleoedd hen felinau llanw yn rhan ddeheuol y Môr Mewndirol. Mae’r anheddiad mwyaf sylweddol yn yr ardal hon o gwmpas Pontrhydybont, lle mae’r B4545 yn darparu ail fan croesi rhwng tir mawr Ynys Môn ac Ynys Gybi. I’r gogledd o Bontrhydybont mae natur y culfor yn newid. Yn yr ardal hon, mae’r Môr Mewndirol yn newid o fod yn fornant nodweddiadol llawn gwaddod, wedi’i gyfyngu’n afreolaidd gan frigiadau craig galed, i fod yn llawer mwy amlwg fel pen aber siâp twmffat clasurol yn rhedeg allan i’r gogledd (gyda Chob y Fali’n amgáu rhan hon yr aber). Mae’r parth rhynglanwol yn tueddu i fod yn llawer mwy lleidiog na cheg yr aber tua’r de.


**Y Môr Mewndirol i’r gogledd o Bontrhydybont**

Yn rhan ogleddol y Môr Mewndirol mae cylchoedd cutiau cyn hanes Ynys Leurad (Heneb Restredig).

Mae amryw geinciau llai yn porthi prif sianel y Môr Mewndirol, a’r fwyaf sylweddol ohonynt yw’r un sy’n ymestyn trwodd i Drearddur, gan ffurfio dyffryn sydd bron yn creu agoriad arall i’r culfor. Mae hynny yn union i’r de o Bontrhydybont, sy’n agor i orlifdir eang yn cynnwys llwybr yr A55, y brif reilffordd, yr A5, yr A5025 (priffordd ogleddol Ynys Môn) a nifer sylweddol o eiddo ym mhentref y Fali.



**Map lleoliad rhan ogleddol a chanol y parth**

Clogwyni craig galed yn bennaf yw arfordir allanol Ynys Gybi o Dywyn Bryn-y-bar, wrth geg ddeheuol y Môr Mewndirol, trwodd i Forglawdd Caergybi ar ben gogleddol Ynys Gybi, sy’n cael eu cydnabod am eu gwerth amgylcheddol fel rhan o AGA Arfordir Ynys Gybi. Mae SoDdGA niferus hefyd. Yma hefyd mae dechrau Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol y gogledd, sy’n ymestyn dros forlin gogledd-orllewin Ynys Môn i gyd.

O fewn y morlin sy’n graig galed yn bennaf, mae llawer o faeau bach a phwysig. Ynddynt mae llawer o’r datblygiad yn y cylch ac mae’r ffordd arfordirol leol yn rhedeg i ben llawer o’r baeau hyn. Yn union i’r gorllewin o geg y culfor mae Traeth Llydan sy’n cael ei ddefnyddio gan ymwelwyr â’r maes carafanau ym Mhentre Gwyddel ac fel lle i lansio cychod.

Yn y Borthwen mae bae bach arall gyda thraeth tywod a graean â thwyni tywod y tu ôl iddo. Mae maes parcio bach y tu ôl i’r twyni yng nghornel orllewinol y bae sydd i’w gyrraedd ar hyd lôn gul o Roscolyn. Mae mynediad sy’n ffordd gyhoeddus at eiddo Tŷ




Gwyn, Ynys Defaid a The Point ar draws y blaendraeth. Y tu ôl i hyn mae morglawdd concrid mawr ac mae morgloddiau lleol yn amddiffyn amryw o'r eiddo hyn.

Ar y clogwyni rhwng Borthwen a Phorth Diana mae parc carafanau sefydlog sylweddol uwchben Porthygaran ac eiddo yn Nhrwyn y Gigfran, yn nodi dechrau casgliad o eiddo sy'n ffurfio Trearddur. Mae ffordd Trwyn y Gigfran yn rhedeg o'r maes carafanau y tu ôl i'r eiddo hyn, ac yna y tu ôl i draethau Porth Castell a Phorth Diana i Drearddur gan ddarparu llwybr mynediad pwysig. Ym Mhorth Diana mae angorfeydd cychod bach niferus yn y bae, maes parcio a llithrfa gysylltiedig. Caiff y ffordd ei hamddiffyn gan gyfuniad o wyneb craig a morglawdd wrth iddi redeg y tu ôl i draethau Porth Diana a Phorth Castell.

Tra bo'r lliaws cymunedau bach yn ffurfio cymuned hanfodol fwy gwasgaredig, Trearddur yw canolbwynt y casgliad hwn o gymunedau yn yr ardal hon o Ynys Gybi. Adeiladwyd cynllun gwarchod yr arfordir ar y lan hon yn ddiweddar, gyda phromenâd




newydd a morgloddiau. Bu cryn ymgynghori a dynnodd sylw at bwysigrwydd defnydd a mynediad at y traeth i'r gymuned leol. Mae gorsaf cwch achub gyda'r lan yng nghornel ogleddol y bae. Gyda'i faes parcio mawr, traeth eang a'i leoliad ar y B4545, sy'n cysylltu rhan ddeheuol Ynys Gybi â Chaergybi a'r A55 yn y Fali trwy Bontrhydybont, mae Trearddur yn brif gyrchfan ymwelwyr rhan hon Ynys Môn. Fodd bynnag, oherwydd ei agosrwydd at Gaergybi, ychydig o wasanaethau eraill sydd yno, dim ysgol hyd yn oed.





I'r gogledd o Drearddur mae'r ffordd yn parhau ar hyd yr arfordir, sy'n gyfres o lwyfannau craig neu glogwyni isel ac amryw faeau bach lle mae'r ffordd yn ffurfio cefn y traeth. Y mwyaf sylweddol o'r baeau hyn yw Porth yr Afon, Porth-y-post a Phorth Dafarch. Ym Mhorth Dafarch mae Cylchoedd Cutiau cyn hanes Porth Dafarch (Heneb Restredig) yn union y tu ôl i ffordd yr arfordir, ac mae Hen Orsaf y Tollau'n adeilad rhestredig.

Y tu hwnt i Borth Dafarch dim ond baeau mwy lleol sydd yn y morlin craig galed gyffredinol. Felly y mae yr holl ffordd trwodd i forglawdd allanol Caergybi; y cyfan wedi'i ddynodi'n rhan o'r ACA, AGA a SoDdGA. Yr unig nodweddion eraill o bwys yw caer

Dinas Porth Ruffydd (Heneb Restredig) ac amryw adeiladau rhestredig gan gynnwys Goleudy Ynys Lawd sy'n dal yn weithredol.

Morglawdd Caergybi sy'n nodi diwedd yr arfordir naturiol a dechrau cytref Caergybi. Yn union oddi mewn i'r morglawdd mae'r marina a gorsaf y bad achub alltraeth. Tu hwnt i hyn mae prif ddatblygiad Caergybi a therfynfeydd y fferi. Caergybi yw canolfan economaidd allweddol rhan fawr o Ynys Môn ac mae'n darparu llawer o'r gwasanaethau allweddol gan gynnwys ysgolion, yr heddlu a'r ysbyty. Mae'r porthladd a gweithrediadau cysylltiedig yn gyflogwr sylweddol pobl leol. Yn ogystal mae yno adeiladau rhestredig niferus.

Tu hwnt i Gaergybi mae Traeth Penrhos, bae heb ei ddatblygu lawer gyda'r A5 yn rhedeg cryn bellter y tu ôl i'r traeth. Heibio'r bae hwn ni ddatblygwyd yr arfordir yn fawr iawn ar draws ceg Culfor Ynys Gybi nes cyrraedd Cob y Fali. Mae darnau o amddiffynfeydd lleol i eiddo ger yr arglawdd.


**Cob y Fali**

Cob y Fali yw'r prif gyswllt rhwng Ynys Gybi ac Ynys Môn, yn cludo'r A55, yr A5 a'r brif reilffordd i Gaergybi. Mae'r unig groesfan arall tua'r de ym Mhontrhydybont sy'n ffordd B fach. Yn ogystal ag arwyddocâd yr arglawdd fel isadeiledd sylfaenol, mae'r bont a'r tollty'n adeiladau rhestredig, ac mae'r cei ar yr ochr ogleddol yn Heneb Restredig.

Ar bwys Cob y Fali mae Parc Newlands, stad fach o dai a ddatblygwyd yn ddiweddar. Mae'r tai ar ben clogwyni isel sy'n dangos arwyddion erydiad. Mewn rhai mannau defnyddiwyd maen arfogi i amddiffyn troed y clogwyni. Ar y blaendraeth ar ben gogleddol yr eiddo dynodwyd Cored Bysgod Newlands yn Heneb Restredig.




**Clogwyn Parc Newlands**

I'r gogledd o'r clogwyni, mae'r tir yn disgyn i aber Afon Alaw sy'n cael ei nodweddu gan dir amaethyddol isel gydag eiddo ar wahân. I'r gogledd o'r aber mae'r arfordir eto heb ei ddatblygu, yn gyfres o faeau wedi'u torri gan lwyfannau craig yn brigo. Ar bentir Twyn Cliperau mae maes carafanau sydd, ynghyd â phen Morglawdd Caergybi, yn nodi terfyn allanol adran fewnol Bae Caergybi, a diwedd y parth hwn. Tir isel yw amryw rannau o'r darn gogleddol hwn a bydd yn agored i gynnydd yn lefel y môr yn y dyfodol.

## 2 Prosesau'r Arfordir

Wynebu'r gorllewin mae'r parth hwn yn bennaf ac, fel y cyfryw, mae'n agored i donnau ymchwydd yn teithio i fyny Môr Iwerddon o'r de-orllewin. Caiff rhannau deheuol y Parth rywfaint o gysgod gan Ben Llŷn, gydag arfordir gorllewinol Ynys Gybi'n llawer mwy agored i gyfeiriadau cryfaf y tonnau. Mae Ynys Gybi'n cysgodi'r Môr Mewndirol, y bae y tu ôl iddo ac aber Afon Alaw rhag effaith y tonnau.


Traeth Mawr sy'n nodi ceg dyffryn Afon Ffraw a foddwyd a'r twyni helaeth. Yr awgrym yn CRhT1 yw bod adeiladu'r ffordd ar draws yr aber o Aberffraw wedi sefydlogi ceg Afon Ffraw a hybodd gronni rhagor o waddod a sefydlogi'r maes twyni. O'r data topograffig sydd ar gael heddiw, mae hyn yn edrych yn llai tebygol. Mae'n ymddangos bod wyneb blaen y twyni wedi datblygu fel rhwystr, gyda'r duedd naturiol i adeiladu o'r de-orllewin. Mae'n edrych yn fwy tebygol yr adeiladwyd y ffordd a'r bont trwy'r twyni datblygedig i groesi'r afon lle'r oedd yn cael ei gwthio'n naturiol yn erbyn y tir uchel i'r gogledd. Mewnlenwi'r dyffryn fu'r dylanwad cryfaf. Yn ôl pob tebyg nid oes fawr o gyflenwad gwaddod newydd yn y twyn cefn oherwydd datblygiad y rhwystr arfordirol naturiol.




Y broses hirdymor ar y rhan ddeheuol hon i gyd fu llenwi rhannau isel yr arfordir, sy'n cael eu cynnal gan y clogwyni a brigiadau craig. Mae'r broses hon i'w gweld yn Nhŷ Cwyfan, ym Mhorth Trecastell ac yn ardal fwy dyffryn Afon Crigyll y tu ôl i Rosneigr. Cryfder cyfunol tonnau a gwyntoedd o'r de-orllewin sy'n hybu'r broses hon ac sy'n bosibl oherwydd bod gwaddod ar gael ger y traeth. Tra bo awgrym bod drifft canlyniadol gwan tua'r de mewn enw, ychydig iawn o dystiolaeth o hyn sydd yn y geomorffoleg mewn gwirionedd. Caiff ei ystyried bod y morlin yn gryf ar linell y torddwr gyda'r broses gryfaf yn un o dreiglo gwaddod yn ôl o fewn cyfyngiadau'r creigiau caletach. Mae rhannau o'r arfordir yn agored i erydiad araf a byddai pwysau cynyddol ar y glannau meddal i dreiglo'n ôl ymhellach gyda chynnydd yn lefel y môr.

Mae modd gweld rhannau gogleddol a chanol y parth fel y casgliad hwn o frigiadau craig ac ynysoedd darniog dros ben, gyda'r dyddodiad rhewlifol ar eu pennau, a'r gwynt, tonnau a cherhyntau'n gweithio arnynt wedyn ac wedi'u mewnlenwi ymhellach gan dywod a llaid. Fel gyda rhan ddeheuol yr arfordir, cyfyngwyd y prosesau ar hyd ochr orllewinol Ynys Gybi o fewn yr adeiledd craig galed, gan dorri i mewn i'r mewnlenwad rhewlifol ac ailweithio gwaddodion arwynebol. Mae dylanwadau lleol gyda phob bae, fel

bod siâp naturiol y geg yn dylanwadu ar siâp y baeau a’r adeileddau caled naturiol a gwneud yn y bae wedyn yn dylanwadu ar siâp y cefndraeth. Pan nad oes digon o ddyfnder i siâp cynllun y baeau, naill ai oherwydd y brigiadau craig neu adeiladu amddiffynfeydd caled, mae hyn wedyn yn pennu sut mae ynni tonnau’n gallu gwasgaru ac yn peri’r amrywiad rhwng y baeau tywodlyd llydan a baeau lle mae blaendraethau craig agored neu glai.




Mae hyn fwyaf amlwg wrth gymharu dau fae fel Traeth Crigyll, sy’n gymharol agored gyda chefndraeth o dywod a graean ar dro naturiol iawn, a Bae Borthwen, lle mae mur concrid mawr sy’n gwarchod y clogwyn clai rhag erydu yn cyfyngu ar ddatblygiad naturiol y bae. Yn achos yr ail fae hwn, mae’r mur wedi creu amgylchedd ynni mwy lle bydd y blaendraeth yn treulio mwy a’r adlewyrchiad o’r mur yn peri erydu’r twyni. Mae hyn yn lleihau gallu’r bae i ymateb i gynnydd yn lefel y môr ac yn gwneud ardaloedd y tu ôl iddo’n fwy agored i berygl llifogydd. Ymatebwyd i’r perygl hwn trwy amddiffyn y twyni gyda chreigiau, sy’n lleihau mwy ar allu’r bae i ymateb i newid.





Mewn baeau eraill mae’r un prosesau sylfaenol yn berthnasol:

- Ym mae Trwyn y Gigfran adeiladwyd amddiffynfa’r ffordd ar

gopa'r traeth naturiol ond ychwanegwyd craig arfog ato i gynorthwyo gwasgaru ynni'r tonnau er mwyn cynnal y traeth.

- Yn Nhrearddur, eto, lleolwyd yr amddiffynfa'n hollol allweddol ar hyd crib y bae naturiol a bu angen rhagor o waith i leihau gwasgu ynni'r tonnau dan amgylchiadau mwy eithafol.




- Ym Mhorth yr Afon mae traeth cymharol naturiol ond brasach ar lwyfan craig ychydig yn uwch, gyda'r ffordd yn ddigon pell yn ôl fel bod lled i gadw'r traeth hwn fel amddiffynfa naturiol.
- Ym Mhorth Dafarch mae'r amddiffynfa'n torri ar draws llinell naturiol y cefndraeth fel bod traeth cefn naturiol cyfyngedig a phwysau o ganlyniad ar droed yr amddiffynfeydd.

I'r gogledd-ddwyrain o Ynys Gybi mae'r draethlin yn cael amddiffynfa naturiol sylweddol o'r ynys ei hun ac o'r morglawdd mawr yng Nghaergybi. Ynghyd â phentir Twyn Cliperau ar Ynys Môn, mae'r adeiledd hwn yn ffurfio ceg yr aber siâp twmffat sy'n rhedeg i lawr i'r Môr Mewndirol. O Gaergybi at yr arglawdd, mae'r pentiroedd craig lle'r adeiladwyd Caergybi a phentir Penrhos yn angori'r draethlin orllewinol. Rhwng y pentiroedd hyn y tonnau cryfaf gogledd-orllewinol yn dod i'r aber sy'n llunio bae meddal Penrhos. Mae traethau cefndraeth cul yr ardal hon a rhai ochr ddwyreiniol yr aber yn arwyddol o'r cyflenwad gwaddod mwy cyfyngedig i'r ardal gyfan. Natur gyffredinol y draethlin yw un o'r arfordir wedi'i gerfio allan o'r cleiau rhewlifol yn hytrach nag un o'r mewnlenwi mawr sydd i'w gweld ar y draethlin dde-orllewinol.

Mae'r cyferbyniad hwn o gyflenwad gwaddod yn dal ymlaen i'r Môr Mewndirol, gyda glannau lleidiog a morfa heli'n bennaf yn yr ardal i'r gogledd o Bontrhydybont a natur fwy tywodlyd llawer o'r geg ddeheuol. Byddai hyn yn awgrymu fod rhan ddeheuol y Môr Mewndirol yn tueddu i fod dan ddylanwad y llanw, tra bo'r rhan ogleddol bellach yn derbyn siltiau manach yn unig gyda'r gallu i gronni gwaddod pan fo penllanw ar droi.

Ychydig o wahaniaeth sydd yn amrediad y llanw rhwng gogledd y Môr Mewndirol a'r de (efallai rhyw 0.2m) er bod amseriad y penllanw oddeutu 45 munud yn hwyrach yng Nghaergybi na thua'r de. Mae'r effaith hon yn peri llif bach ychwanegol i'r ardal o'r de ar y llanw ac ychydig mwy o aros dros y penllanw yn y pen gogleddol wrth i'r llanw dreio. Caiff yr effaith hon ei chymhlethu ymhellach trwy bresenoldeb Cob y Fali sy'n cyfyngu symudiad llanwol. Byddai hyn eto'n tueddu i gefnogi cysyniad goruchafiaeth llanw'r rhan ddeheuol.

### Cyfraddau Erydiad Man Cychwyn Posibl

Aseswyd cyfraddau sylfaenol o ddata arolygu a hanesyddol. Caiff amrediad yr erydiad all ddigwydd ei asesu o ran amrywiad o'r gyfradd sylfaenol a sensitifedd i gynnydd yn lefel y môr. Caiff rhagor o fanylion ar gyflymder erydu ynghyd â mapiau erydiad eu darparu yn Atodiad C. Caiff gwahaniaeth ei wneud rhwng erydiad sylfaenol y draethlin a chiliad clogwyni, yn effeithio ar gopa clogwyni a llethrau arfordirol. Mae hyn yn cael ei nodi yn y tabl isod ynghyd ag elfennau perthnasol eraill. Wrth asesu erydiad a chiliad yn y dyfodol gwnaed lwfans am gynnydd yn lefel y môr a chaiff hyn ei drafod yn atodiad C. Caiff hyn ei drafod yn fyr hefyd yn dilyn y tabl.

| Lleoliad | Cyfradd Sylfaenol NAI (m / flwyddyn) | Nodiadau | Amrediad Erydu 100 mlynedd (m) |
|---|---|---|---|
| Glannau craig galed yn gyffredinol | 0.05 | Gall rhai cylchoedd lleol ddioddef tirlithriad lleol ond, oherwydd y llwyfan craig galed iawn, ychydig o gynnydd sydd i'w ddisgwyl yng nghyflymder erydu oherwydd cynnydd yn lefel y môr. | 5 i 10 |
| Traeth Mawr | 0.1 | Treiglo'n ôl yn gyffredinol gyda chynnydd yn lefel y môr | 20 i 40 |
| Traeth Llydan | 0.1 | Treiglo'n ôl yn gyffredinol gyda chynnydd yn lefel y môr | 20 i 40 |
| Rhosneigr | 0.1 | Erydiad y grib yn dilyn methiant yr amddiffynfeydd | 10 i 25 |
| Traeth Crigyll | 0.1 | Treiglo'n ôl yn gyffredinol gyda chynnydd yn lefel y môr | 20 i 40 |
| Traeth Cymyran | 0.1 | Treiglo'n ôl yn gyffredinol gyda chynnydd yn lefel y môr | 20 i 40 |
| Cyfraddau nodweddiadol y bae gorllewinol | 0.1 i 0.3 | Erydiad y grib yn ôl yn dilyn methiant yr amddiffynfeydd | 10 i 50 |
| Bae Penrhos | 0.05 | Treiglo'n ôl yn gyffredinol gyda chynnydd yn lefel y môr | 10 i 30 |
| Newlands | 0.2 | Erydiad a llithriant arfordirol | 20 i 50 |
| Porth Penrhyn Mawr | 0.5 | Treiglo'n ôl yn gyffredinol gyda chynnydd yn lefel y môr | 20 i 30 |

Tra bydd cynnydd yn lefel y môr (SLR) yn ffactor sylweddol yn natblygiad traethlin baeau lleol yn y dyfodol, dros lawer o'r parth ychydig fyddai'r effaith ar erydiad araf iawn y prif glogwyni caled. Lle mae clogwyni neu draethlinau meddalach yn erydu, mae cyflymder yr erydiad yn debygol o gynyddu gyda chynnydd yn lefel y môr. Gallai hyn fod yn 1.7 i 2.5 gwaith y cyflymder erydu sylfaenol presennol, dros y 100 mlynedd. Lle mae nodweddion mwy sefydlog, fel traethau storm hollol ddatblygedig byddai'r traeth yn treiglo'n ôl yn naturiol efallai oddeutu 10m i 40m, yn dibynnu ar natur y traeth a'r arfordir y tu ôl iddo. Wrth i draethau, sydd ar hyn o bryd yn gwarchod llethrau arfordirol cymharol sefydlog, erydu neu dreiglo'n ôl gallai hyn beri ailysgogi tirlithriadau ac ansadrwydd llethrau.


### LLIFOGYDD

Dros ardal ddeheuol y parth mae ardaloedd perygl llifogydd sylweddol yn gyfyngedig yn lleol o gwmpas Aberffraw, gan effeithio'n bennaf ar y ffordd a chyffiniau'r bont, a thu cefn i Rosneigr. Yn yr ardal olaf hon mae perygl i'r ffordd ac efallai i'r rheilffordd.



Gyda chynnydd disgwyliedig o 1m yn lefel y môr, mae'r ardaloedd hyn yn cynyddu ychydig, gyda rhywfaint o berygl i ardaloedd isaf RAF Valley.

Yn yr ardaloedd gogleddol canolog, mae perygl llifogydd yn fwy sylweddol. Prif ardaloedd pryder yw yn lleol i ardal Hen Harbwr Caergybi, yn ardal Trearddur a thrwy'r dyffryn sy'n rhedeg tua'r gogledd o'r Môr Mewndirol i ardaloedd isel pentref y Fali. Mae'r ardal olaf hon hefyd yn peryglu'r hen ffordd a'r brif reilffordd, ond mae'r sarn o fewn y Môr Mewndirol yn amddiffyn hyn ar hyn o bryd.




Yn y pen draw, gyda chynnydd o 1m yn lefel y môr, daw perygl llifogydd yn sylweddol waeth yn y tair ardal a nodwyd uchod. Byddai rhannau o'r Hen Harbwr islaw penllanw mawr arferol. Byddai llawer o'r pentref y tu ôl i lan môr Trearddur mewn perygl gyda lefelau dŵr eithafol. Byddai llawer o'r dyffryn cysylltiedig â phentref y Fali islaw MHWS. Ymhlith ardaloedd newydd mewn perygl fyddai'r tir isel y tu ôl i Fae Penrhos, ynghyd ag ardaloedd ar dir mawr Ynys Môn i'r gogledd o'r parth a fyddai islaw MHWS.

**Cynnydd yn Lefel y Môr**



Dan y senario cynnydd mwy eithafol o 2m yn lefel y môr mae arwynebedd yr ardaloedd mewn perygl yn cynyddu i ryw raddau, er bod hynny'n fawr iawn ar gyrion yr ardaloedd a drafodwyd uchod eisoes. Fe all fod llifogydd rheolaidd rhwng Trearddur a'r Môr Mewndirol. Bydd llawer o'r gwastadedd arfordirol i'r gogledd o'r parth dan ddŵr gyda llanwau arferol a bydd dyfnder llifogydd yn cynyddu yn y Fali.

Un agwedd ddiddorol a ddaeth i'r amlwg ar y plot cyfagos yw'r gwahaniaeth ymylol iawn rhwng llifogydd MHWS gyda'r senario hwn ac yn y dyfodol dan amgylchiadau eithafol 1:200 mlynedd. Mae awgrym cryf bod y senario cynnydd o 2m yn lefel y môr yn yr ardal hon yn diffinio cyflwr hen draethlin na fyddai'n mynd drosto heblaw gyda chynnydd llawer mwy yn lefel y môr.

#### AMDDIFFYNFEYDD PRESENNOL

Mae amddiffynfeydd yn Aberffraw, Rhosneigr, Pontrhydybont, Trearddur a llawer o'r baeau llai, ynghyd ag amddiffynfa fwy sylweddol o gwmpas llawer o Gaergybi, gan gynnwys y prif forglawdd sy'n cysgodi darn sylweddol o'r arfordir. Mae amddiffynfeydd rhag llifogydd ym mhentref y Fali ac yn lleol mew ardaloedd eraill. Ymhlith yr amddiffynfeydd mwy naturiol mae rhai RAF Valley, Penrhos ac ar hyd blaen y twyni i'r gogledd. Mae amddiffynfa leol i'r diben hefyd i droed Clogwyn Newlands.

#### SENARIO DIGYFYNGIAD

Fel y disgrifiwyd eisoes, ar hyd llawer o lannau'r parth, y prosesau digyfyngiad naturiol yw traethlin yn treiglo'n ôl, gyda'i siâp o'r awyr wedi'i gyfyngu gan greigiau caled yr ardal. Heb amddiffynfeydd a heb ddylanwad prif forglawdd Caergybi mae'n amlwg y byddai llawer o Fae Caergybi mewnol yn cael ei amlygu fwy. Hefyd, heb ddylanwad Cob y Fali, byddai rhywfaint o newid yn ymddygiad pen gogleddol y Môr Mewndirol.

Yn y tymor hwy, gyda chynnydd mwy eithafol yn lefel y môr, byddai ardaloedd newydd gyda llanw egnïol a gallai rhan ddeheuol Ynys Gybi ddychwelyd i gyfres o gilfachau ac ynysoedd.

#### RHYNGWEITHIAD ALLWEDDOL GYDAG AMDDIFFYNFEYDD

Mae prif ddylanwad amddiffynfeydd ar ddwy lefel. Ar y raddfa fawr mae'n amlwg bod dylanwad y prif forglawdd a'r arglawdd yr ardal gyfan yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'r amddiffynfeydd mwy lleol i ryw raddau'n fwy arwyddocaol yn lleol yn yr ardal hon mewn gwirionedd. Fel y trafodwyd yn yr adran gynharach, yn y mannau lle mae amddiffynfeydd yn rhyngweithio, neu lle byddant yn gwneud hynny yn y dyfodol, gyda'r datblygiad lleol yn y baeau y gall fod perygl colli traethau gyda chynnydd yn lefel y môr neu newidiadau yn sut mae tonnau'n rhyngweithio â rhannau cyfagos o'r draethlin lle gallai fod yr effaith fwyaf.

O ran perygl llifogydd ac effaith amddiffynfeydd rhag llifogydd, y lle mwyaf amlwg yw amddiffyn pentref y Fali. Er y byddai canlyniadau cymdeithasol ac economaidd sylweddol wrth agor y dyffryn hwn i orlifo llanwol, nid yw'n cael ei ystyried mor arwyddocaol o ran prosesau naturiol yr arfordir. Amddiffynnwyd yr ardaloedd i'r gogledd yn naturiol ac, eto, byddai gorlifo llanwol sylweddol yn creu cyfle cynefin ond heb fod mor ddylanwadol â hynny ar brosesau arfordirol. Ar y llaw arall gallai caledu'r amddiffynfeydd hyn leihau cyflenwad gwaddod pwysig ac effeithio ar yr ardal ehangach.

## 3 Senarios Rheoli

3.1 Dim Ymyriad Gweithredol – Senario Man Cychwyn 1.

Mae'n ddoeth ystyried y parth fel gwahanol rannau, er bod effaith ehangach y gwahanol senarios man cychwyn yn cael eu trafod hefyd.

*Traethlin y De-orllewin.* Mae'r prif amddiffynfeydd ar hyd y rhan hon yn Rhosneigr. Mewn cylchoedd eraill, mae amddiffynfeydd lleol. Y brif broses gyda'r senario hwn fyddai darnau meddalach yr arfordir yn treiglo'n ôl yn gyffredinol, gyda pherygl llifogydd yn cynyddu fel y trafodwyd yn gynharach.

Mewn cysylltiad â'r Traeth Mawr byddai llinell y twyni'n treiglo'n ôl heb fawr ddim effaith ar wahân i gynnal rhywfaint o dywod chwyth ychwanegol i'r twyni y tu ôl, gan gynnal cyfundrefn dwyni gefn yn datblygu'n egnïol ond gyda gostyngiad bychan yn arwynebedd y twyni at ei gilydd. Yn aber Afon Ffraw, byddai cyflenwad gwaddod parhaus yn tueddu i gydbwyso lefel gynyddol y môr. Yn Aberffraw, byddai'r bont a'r ffordd mewn mwy o

berygl llifogydd, ond byddai llawer mwy o berygl i eiddo is dan amgylchiadau mwy eithafol yn unig. Gyda senario cynnydd o 1m yn lefel y môr fe allai fod effaith ar y ffordd gyda llanwau arferol. Gallai hyn effeithio ar y prif lwybr arfordirol.

Ym Mhorth Trecastell a Phorth Nobla, gallai erydiad hirdymor beri problem o ran y briffordd, er ei bod yn edrych yn annhebygol y byddai effaith ar eiddo.

Byddai'r twyni rhwng Porth Nobla a Rhosneigr yn tueddu i dreiglo'n ôl ac, wrth wneud hynny, byddent yn creu lled angenrheidiol i gynnal cyfundrefn dwyni gymwys. Yng Ngherrig Defaid byddai'r eiddo y tu ôl i'r brigiad craig mewn mwy o berygl erydiad a gall yn hawdd gael ei golli yn ystod rhan olaf yr ail gyfnod wrth i'r brigiad craig ddod yn llai effeithiol. Byddai hyn yn peri colled sylweddol ond lleol. Fodd bynnag, y brigiad craig yn gyffredinol sy'n dylanwadu ar siâp y draethlin yn hytrach nag unrhyw amddiffynfeydd yn y cylch.

Yn Rhosneigr, byddai'r effeithiau'n debyg i'r rhai yng Ngherrig Defaid ond ar raddfa fwy, a mwy rhanbarthol. Gyda methiant amddiffynfeydd presennol, llawer ohonynt yn breifat, byddai gerddi a ffyrdd mynediad yn cael eu colli ac, yn y pen draw, eiddo yn ystod y ddau gyfnod olaf. Heb reolaeth byddai hyn yn effeithio ar ddefnydd cyffredinol y draethlin ac yn effeithio ar dirwedd adeiledig yr ardal. Fodd bynnag, byddai'n darparu lled i gynnal y traeth.

Gyda'r senario hwn, yr effaith gymunedol fwyaf sylweddol fyddai mwy o berygl llifogydd yng ngogledd y dref, gyda phosibilrwydd llifogydd llanwol yn y dyffryn yn tarfu ar fynediad ar y ffordd ac efallai'n effeithio ar y rheilffordd. Yn ei dro byddai hyn yn effeithio ar obeithion cael datblygiad newydd yn y dref a gall hefyd arwain at golli gwerth cyffredinol yn y cylch. Byddai'r perygl i'r rheilffordd yn cael canlyniadau arwyddocaol ar economi ehangach Ynys Môn.

| Effaith gwahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr |
| --- |
| Gyda chynnydd o 2m yn lefel y môr byddai cynnydd sylweddol yn yr ardal lifogydd gan gynnwys y ffordd i'r de o'r dref. I bob diben, byddai hyn yn peri bod y dref yn sefyll ar ynys heb ffordd ddiogel iddi. |

Yr effaith drwyddi draw ar yr amgylchedd naturiol fyddai cynnal y draethlin yn gweithredu'n naturiol ond byddai Llyn Maelog yn newid yn sylweddol o amgylchiadau croyw i halwynog yn y tymor hwy. Gallai'r cynnydd sylweddol yng ngorlifdir llanwol Afon Crigyll greu darnau newydd o forfa heli.

Ni fyddai ardaloedd isel o gwmpas RAF Valley mewn llawer mwy o berygl llifogydd heblaw dan amgylchiadau mwy eithafol. Byddai llinell y twyni'n treiglo'n ôl yn gyffredinol a allai fygwth asedau'n agos at gefn y gyfundrefn dwyni bresennol. Er nad yw swyddogaeth yr asedau hyn yn hysbys, mae'n ymddangos y byddai'n ymarferol eu symud heb golli'r sefydliad mwy.

*De-orllewin Ynys Gybi.* Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adran ar brosesau arfordirol, gyda'r senario hwn yn gyffredinol byddai tuedd i dreiglo'n ôl i gefndraeth yr amrywiol faeau. Gyda'r senario hwn, byddai perygl colled oherwydd erydiad yn y Borthwen, ynghyd â cholli ffordd y blaendraeth a mynediad at eiddo arall yn yr hirdymor, efallai ar Drwyn y Gigfran ac yn Nhrearddur. Byddai'r ffordd yn cael ei cholli hefyd mewn amryw fannau gan amharu'n sylweddol ar y gyfundrefn gludiant. Ynghyd â cholli'r ffordd, gallai Cylchoedd Cutiau Porth Dafarch gael eu difrodi.

Byddai'r perygl llifogydd yn sylweddol. Gallai rhyw 200 eiddo fod mewn perygl llifogydd gyda chynnydd yn lefel y môr yn y pen draw. Heb reolaeth byddai'r effaith ar yr ardal gyfan yn sylweddol ac, o ganlyniad, byddai'n peryglu cyfanrwydd y gymuned ehangach at ei gilydd.

Wrth ystyried ardaloedd eraill yn y parth gyda'r senario hwn, ni fyddai gwaith cynnal a chadw ychwanegol ar Gob y Fali na phrif Forglawdd Caergybi. Efallai mai dim ond yn ystod y trydydd cyfnod y byddai'r adeileddau hyn yn methu i'r graddau na fyddent mwyach yn rhoi mynediad na chysgod i Ynys Gybi. Fodd bynnag, heb yr adeileddau hyn, yn fwyaf arbennig yr arglawdd, byddai'n anodd cynnal pwysigrwydd economaidd yr ynys i Ynys Môn ac i economi Cymru.

*Caergybi a Phenrhos*. Yn fwy lleol, gyda'r senario hwn, byddai amddiffynfa'n cael ei cholli o gwmpas prif ardaloedd yr harbwr, gyda pherygl llifogydd cynyddol. Byddai hyn ynddo'i hun yn gwneud drwg mawr i werth yr ardal. Byddai traeth bae Penrhos yn treiglo'n ôl yn gyffredinol a gallai eiddo unigol ger yr arglawdd gael eu colli.

*Y Môr Mewndirol.* Y prif berygl yn yr ardal hon fyddai llifogydd. Fel y nodwyd yn y drafodaeth uchod, byddai'r difrod mwyaf sylweddol yn yr ardal o gwmpas y Fali. Byddai hyn yn cael effaith ddifrifol ar y prif lwybrau cludiant a byddai'n arwain maes o law at golli nifer sylweddol o eiddo yn y pentref oherwydd llifogydd llanwol rheolaidd. Yn fwy cyffredinol yn ardal y Môr Mewndirol, gallai fod mwy o lifogydd llanwol arferol i eiddo isel ym Mhontrhydybont ac mewn cylchoedd lleol eraill. Fodd bynnag, o ran y cymunedau ehangach, ni fyddai unrhyw gynnydd sylweddol mewn perygl hyd yn oed gyda chynnydd yn lefel y môr. Byddai'r bont yn methu maes o law wrth i amddiffynfeydd y pentanau fethu a gallai hyn fod â chanlyniad difrifol i'r cymunedau yn ne-orllewin Ynys Gybi (a fyddai eu hunain mewn perygl uniongyrchol gyda'r senario hwn). Fodd bynnag, gyda'r senario hwn mae cyfle pwysig i ganiatáu datblygu mwy o forfa heli a chorstir ymyl, gan wneud iawn am y golled oherwydd cynnydd yn lefel y môr dros gorstir presennol y Môr Mewndirol.

*Newlands a rhan ogleddol yr arfordir.* Byddai troed y clogwyn islaw'r datblygiad newydd yn Newlands yn dal i erydu ac fe all hyn achosi mwy o dirlithriad gan effeithio ar eiddo ar gopa'r clogwyn. Gyda chynnydd yn lefel y môr byddai'r broses hon yn parhau, gyda chryn golli eiddo. Dros y rhan ogleddol, i'r gogledd o Afon Alaw, byddai'r draethlin yn tueddu i dreiglo'n ôl, gan gynnal crib gul y blaendraeth fel amddiffynfa rhag llifogydd arferol. Fodd bynnag, wrth i lefel y môr gynyddu, mae'n edrych yn debygol y byddai darnau o dir amaeth y tu cefn i'r amddiffynfa naturiol hon mewn mwy o berygl. Byddai hyn yn creu cyfle i gynefin newydd ddatblygu gyda phosibilrwydd datblygu morlynnoedd halwynog. Nid oes unrhyw eiddo mewn perygl llifogydd er y gallai ambell eiddo fod mewn perygl erydiad.

| Effaith gwahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr |
| --- |
| Gyda chynnydd o 2m yn lefel y môr byddai cynnydd sylweddol yn arwynebedd llifogydd. Gallai hyn beri gorlifo llanwol rheolaidd i gylchoedd helaeth o dir amaethyddol isel. Fodd bynnag, oherwydd bod y draethlin yn dal i dreiglo'n ôl, mae'n edrych yn debygol y byddai hyn yn datblygu ac efallai'n ffurfio morfa heli. |

3.2 Gyda Rheoli Presennol – Senario Man Cychwyn 2.

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno polisi cyfredol a dull rheoli ar gyfer y Parth.

| Rhif CRhT1 | Uned | Polisi | Dull Rheoli Dilynol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | | | |
| 2.3 | Dinas Lwyd i Gwningar Trefri | DN | |
| 2.4 | Tywyn Aberffraw | SHTL | |
| 2.5 | Tywyn Aberffraw i Borth Nobla | DN | |
| 2.6 | Porth Nobla i Rosneigr | SHTL/MR | |
| 2.7 | Rhosneigr | SHTL | |
| 2.8 | RAF Valley | DN | |
| 2.9 | Plas Cymyran i Bontrhydybont (y ddwy lan) | DN | |
| 2.10 | Plas Cymyran i Gaergybi | DN | |
| 2.10a | Traeth Crigyll | DN | |
| 2.10b | Borthwen | SHTL/MR | |
| 2.10c | Porth Diana | HTL | |
| 2.10d | Bae Trearddur | HTL | Strategaeth ddiweddar yn cadarnhâu HTL. |
| 2.10e | Trearddur i Borth y Post | SHTL | |
| 2.10f | Porth Dafarch | HTL | |
| 2.11 | Caergybi i Bont yr A5 | SHTL/MR | |
| 2.12 | Pontrhydybont i Bont yr A5 (y ddwy lan) | DN | |
| 2.13 | Parc Newlands | SHTL/MR | |
| 2.14 | Aber Afon Alaw | DN/MR | |
| 2.15 | Afon Alaw i'r Penrhyn | DN/MR | |

Nid yw Cynllun Drafft Rheoli Llifogydd Dalgylch Gogledd-orllewin Cymru'n manylu llawer ar yr ardal hon. Mae'r ardal o fewn un uned bolisi sy'n cwmpasu Ynys Môn gyfan a chaiff yr asesiad polisi ei grynhoi isod.

| | |
|---|---|
| **Uned Bolisi 1 Ynys Môn** | Mae'r uned hon yn cwmpasu Ynys Môn gan gynnwys dalgylchoedd yr holl afonydd sy'n draenio'r ynys. Gwledig yn bennaf yw'r dalgylch yn cynnwys AHNE Ynys Môn a threfi Llangefni, Caergybi ac Amlwch. |
| **Problem / perygl:** | **Nodweddion ffisegol:**<br>Pobl, eiddo ac isadeiledd mewn nifer o drefi bach a phentrefi gan gynnwys Llangefni, Biwmares a Phorthaethwy.<br>Mae amryw bentrefi ac anheddau bach gwasgaredig yn sefyll ar dir isel a thonnog braf, ar wahân i gornel bellaf y de-ddwyrain lle mae tir ychydig yn serthach.<br>Tir amaethyddol ansawdd canolig gradd 3-4 yn bennaf.<br>Priddoedd llawn dŵr yn dymhorol ac yn draenio'n wael sydd yn rhan ogleddol yr ynys yn bennaf.<br>Mae amryw afonydd yn draenio'r ynys, gan gynnwys Afon Cefni, Afon Wygyr, Afon Crigyll, Afon Alaw, Afon Goch, Afon Lligwy ac Afon Braint.<br>Mae'r uned bolisi gyfan yn Ardal Amgylchedd Arbennig gyda llawer o'r morlin wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.<br>Mae'n cynnwys Dosbarth Draenio Mewnol Cors Ddyga. |

| | |
|---|---|
| | **Mecanwaith llifogydd:**<br>Carthffosydd yn gorlifo.<br>Llifogydd dŵr arwyneb.<br>Ychydig o orlifo afonydd lleol wrth i sianelau'r afonydd lenwi'n gyflym a gollwng dros y glannau. Fel arfer bydd hyn yn digwydd ar ôl cyfnodau hir o law ac mae'n digwydd yn Llangefni ac amryw bentrefi bach (e.e. Amlwch, Porthaethwy, Biwmares ac ati). Mae llifogydd yn yr uned bolisi hon yn fas a gall arwynebedd llifogydd yng nghefn gwlad fod yn gymharol fawr oherwydd y gorlifdiroedd eang. |
| | **Derbynnydd:**<br>Pobl, eiddo ac isadeiledd mewn nifer o drefi bach a phentrefi gan gynnwys Llangefni, Biwmares a Phorthaethwy.<br>Ffyrdd dosbarth A sy'n bwysig yn lleol a rhanbarthol gan gynnwys yr A5 a'r A55.<br>Tir amaethyddol gradd ganolig (gradd 3 a 4).<br>Dynodiadau tirwedd – AAA ac AHNE.<br>Dynodiadau amgylcheddol – AGA, ACA, Ramsar a SoDdGA.<br>Dynodiadau hanesyddol – Adeiladau Rhestredig, Henebion Cofrestredig, Ardaloedd Tirwedd Hanesyddol a Pharciau a Gerddi Cofrestredig. |
| | **Crynodeb o berygl llifogydd yn y dyfodol (ymhen 100 mlynedd)** |
| | Nid yw newid yn yr hinsawdd yn debygol o gael effaith sylweddol ar faint o bobl ac eiddo sydd mewn perygl llifogydd ar Ynys Môn. Nid yw'r model bras o Langefni ond yn dangos cynnydd o ddau i bump o bobl mewn perygl ymhen 100 mlynedd. Dyma sut mae'n debygol o fod yn y rhan fwyaf o bentrefi ac anheddau Ynys Môn gyda dim ond cynnydd bach mewn perygl llifogydd oherwydd newid yn yr hinsawdd.<br>Gall mwy o lifogydd dŵr arwyneb a charthffosydd yn gorlifo effeithio ar fwy o bobl. Mae disgwyl i aeafau gwlypach gyda stormydd amlach a garwach gynyddu maint llifogydd.<br>Dangosodd y modelu bras nad yw cynnydd yn lefel y môr yn effeithio llawer iawn ar y perygl llifogydd yn yr uned bolisi. |
| **Polisi a ddewiswyd** | **Polisi 3 –** Parhau gyda chamau presennol neu wahanol i reoli perygl llifogydd i'r safon bresennol. |
| **Cyfiawnhad a pholisïau eraill a ystyriwyd** | Daw'r perygl presennol llifogydd yn yr uned bolisi hon o gyfuniad o lifogydd dŵr arwyneb a gorlifo afonydd lleol. Mae carthffosydd yn gorlifo'n peri perygl llifogydd hefyd. Mae 1% o'r boblogaeth yn yr uned bolisi mewn perygl o ddigwyddiad llifogydd 1% AEP. Nid yw nifer y bobl ond yn cynyddu 0.2% yn y dyfodol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Mae'r perygl llifogydd yn cael ei ystyried yn rhesymol ac, felly, nid oes modd cyfiawnhau polisi 5.<br>Mae nifer o bentrefi ac anheddau bach lle mae camau rheoli perygl llifogydd ar hyn o bryd (e.e. Llangefni, Amlwch, Biwmares, Llanfairpwll ac ati). Polisi 3 yw'r dewis polisi amlwg ar gyfer yr uned bolisi hon. Bydd hyn yn cynnal y gweithgareddau rheoli perygl llifogydd presennol, gan gynnal perygl llifogydd cymharol isel dros yr ynys gyfan. Bydd polisi 3 yn caniatáu edrych ar weithgareddau rheoli perygl llifogydd gwahanol i gadw'r perygl llifogydd presennol. Mae'n debygol y bydd cynnydd yn nifer y digwyddiadau llifogydd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag nid yw'r llifogydd hyn yn debygol o gynyddu'r perygl yn sylweddol i bobl na tharfu ar fywyd cymunedol yn sylweddol. Byddwn yn dal i gynnal sianelau'r afonydd ac amddiffynfeydd lleol rhag llifogydd i gadw'r un faint o berygl llifogydd ar draws yr holl fannau sydd mewn perygl. Fe all fod cyfleoedd mewn rhai mannau i weithio gyda pherchenogion tir a'r awdurdodau lleol i ddarparu |

| | |
|---|---|
| | dewisiadau amgen a mwy cynaliadwy, fel cynyddu arwynebedd coetir i leihau dŵr ffo a chadw'r un faint o berygl llifogydd felly. Fodd bynnag, mae cynyddu amlder llifogydd i leihau perygl llifogydd dros yr uned bolisi gyfan, h.y. dewis polisi 6, yn annhebygol o gyflawni amcanion sicrhau nad yw'r niwed i fywyd oherwydd llifogydd yn cynyddu ar draws Ynys Môn gyfan. Felly nid polisi 6 yw'r dewis polisi mwyaf priodol.<br>Er bod newid yn yr hinsawdd yn cynyddu iawndal llifogydd ychydig yn y dyfodol nid yw nifer y bobl mewn perygl ond yn cynyddu 1.2%. Felly, nid oes angen polisi 4.<br>Byddai atal neu ostwng y camau presennol rheoli perygl llifogydd yn gadael i amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd adfeilio ac yn cynyddu nifer y bobl ac eiddo yn yr uned bolisi sydd mewn mwy o berygl llifogydd. Mae'n debygol y bydd mwy na 1,200 o bobl mewn perygl pe bai'r camau rheoli perygl llifogydd presennol yn dod i ben neu'n gostwng. Nid yw hyn yn cyflawni amcanion yr uned bolisi ac, felly, mae polisïau 1 a 2 yn anaddas. |
| **Cyfleoedd a chyfyngiadau ar gyfer y Dalgylch i gyd** | Cyfleoedd:<br>Sicrhau dim cynnydd mewn dŵr ffo o'r datblygiadau newydd arfaethedig yng Nghynllun Gofodol Cymru trwy reoli datblygiad.<br>Lleihau perygl llifogydd yn y dyfodol trwy ysbrydoli a dylanwadu ar y broses gynllunio.<br>Helpu cyrraedd targedau cynllun cenedlaethol gweithredu ar fioamrywiaeth (BAP) trwy weithgareddau rheoli perygl llifogydd.<br>Rheoli lefel dŵr yn well, gan ddiwallu anghenion rheoli perygl llifogydd yn ogystal â chyfoethogi cynefinoedd tir gwlyb trwy ddatblygu Cynlluniau Rheoli Lefel Dŵr (WLMP).<br>Lleihau perygl llifogydd a gwella ansawdd dŵr trwy hyrwyddo ac annog defnyddio SuDS yn briodol yn y datblygiadau trefol arfaethedig yng Nghynllun Gofodol Cymru.<br>Gwella cynaliadwyedd rheoli perygl llifogydd ar hyd y morlin ac aberoedd trwy ddylanwadu ar ail genhedlaeth Cynlluniau Rheoli Traethlin.<br>Lleihau perygl llifogydd ar hyd a lled ardal y CRhLlD trwy arweiniadau a chamau gweithredu fydd yn gwella cymeriad y dirwedd a chynyddu amwynder cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau adloniant, twristiaeth a hamdden yn y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.<br>Lleihau dŵr ffo o ddalgylchoedd uchaf trwy weithio gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru a'i brosiect Coetiroedd Gwell i Gymru.<br>Lleihau cyfraddau gollwng brig mewn afonydd trwy adfer cyrsiau dŵr i statws afon geomorffolegol da (h.y. cwrs dŵr yn gweithredu'n naturiol) yn unol â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.<br>Lleihau perygl llifogydd trwy rybuddio'n well rhag llifogydd ac ymateb brys.<br><br>Cyfyngiadau:<br>Dylid cydymffurfio â deddfwriaeth ryngwladol a'r llywodraeth, polisïau rheoli amgylcheddol, cynlluniau a strategaethau ar gyfer y dalgylch, fel rhoi lle i dai newydd o fewn y dalgylch fel y manylir yng Nghynllun Gofodol Cymru a chydymffurfio â Rheoliadau Cynefinoedd.<br>- Mae rhai cynefinoedd a ddynodwyd yn amgylcheddol yn agored i newidiadau yn amlder llifogydd, cemeg llifddwr, lefelau dŵr daear a chynnal a chadw cyfundrefnau draenio.<br>- Effaith weledol gweithgareddau rheoli perygl llifogydd o fewn AHNE ac AAA.<br>- Presenoldeb rhywogaethau gwarchodedig gyda gofynion lefel dŵr, ansawdd dŵr a chynefin penodol, fel madfall ddŵr gribog a bras y cyrs<br>- Nifer mawr o ddalgylchoedd afonydd yn gweithredu'n unigol.<br>- Mae datblygiad hanesyddol a rhai dynodiadau treftadaeth yn rhwystrau ffisegol parhaol mewn gorlifdiroedd. |

| | |
|---|---|
| | - Dim diraddio tramwyfeydd a chynefinoedd presennol pysgod.<br>- Mae rhai safleoedd archeolegol uwchlaw ac islaw'r wyneb yn y gorlifdir yn agored i newidiadau yn lefel y dŵr, amlder llifogydd a chemeg dŵr.<br>- Mae amwynderau twristiaeth, hamdden ac adloniant yn hanfodol i economi'r ardal. |

Yn fras mae natur polisi'r CRhLlD yn debyg i asesiad mwy lleol CRhT1, trwy fod ar gyfer parhad rheoli lleol o gylchoedd penodol sydd mewn perygl. O safbwynt CRhLlD, nid oes unrhyw gynnydd sylweddol mewn perygl o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, nid yw CRhLlD yn benodol yn ystyried y cynnydd uniongyrchol mewn perygl oherwydd cynnydd yn lefel y môr, gan adael hyn i CRhT2.

Dan y senario Gyda Rheoli Presennol hwn, caiff polisïau sylfaenol CRhT1, er iddynt gael eu datblygu'n wreiddiol dros gyfnod o 50 mlynedd, eu dwyn ymlaen fel rheolaeth barhaol dros 100 mlynedd CRhT2. Ar hyd llawer o'r lan, y polisi yw Dim Ymyriad Gweithredol a byddai fel y trafodwyd uchod. Caiff gwahaniaethau allweddol eu trafod isod.

*Traethlin y De-orllewin.* Yn Aberffraw, y polisi yw cadw'r llinell yn ddetholus. Mae'n oblygedig o CRhT1 y byddai hyn yn golygu amddiffyn y ffordd a hen gei'r pentref yn well. Byddai'r agwedd hon yn gynaliadwy o ran sefyllfa ond byddai'n dechrau rhoi cyfyngiad pellach ar ddatblygiad naturiol y gyfundrefn gyda chynnydd yn lefel y môr. Ar wahân i gynnal y llwybr cludiant pwysig ni fyddai cynyddu uchder amddiffynfeydd yn dod â llawer o fudd economaidd.

Mae polisi tebyg o gadw'r llinell yn ddetholus rhwng Porth Nobla a Rhosneigr, gan gynnwys Rhosneigr ei hun. Dehonglwyd hyn eto fel bwriad i gynnal amddiffynfeydd presennol i eiddo ac i'r ffordd. Yng Ngherrig Defaid, byddai'n dechnegol ymarferol dal i amddiffyn y casgliad bach o eiddo newydd efallai yn ystod yr holl gyfnodau. Fodd bynnag, tua diwedd y trydydd cyfnod, byddai amddiffynfa o'r fath nid yn unig yn gorfod amddiffyn rhag erydiad ond hefyd rhag llifogydd rheolaidd. Dan y pwysau cynyddol hwn a'r angen am amddiffynfeydd uwch a mwy sylweddol, byddai cynaliadwyedd a chyfiawnhad economaidd hirdymor dros amddiffyn yn amheus. Byddai'r newid o sefyllfa lle bo'r brigiad craig naturiol yn dylanwadu ar ffurf yr arfordir i un lle bo amddiffynfeydd caled yn gweithredu fel y prif bwynt rheoli'n golygu y byddai amddiffynfeydd yn gorfod cael eu hymestyn y tu hwnt i'r eiddo i osgoi gorasgellu. Byddai hyn yn cael effaith gynyddol ar dirwedd yr ardal a gall fod yn groes i fwriad dynodi'r ardal hon yn un o Harddwch Naturiol Eithriadol. Yn y pen draw byddai effaith ar werth yr eiddo yn y fan hon wrth i'r uchder gynyddu.

Yn Rhosneigr, bydd rhai mannau'n cael cryn dipyn yn fwy o amddiffynfa gan y brigiad craig naturiol nag ardaloedd eraill. Byddai hyn yn cael ei ddwysáu gyda chynnydd yn lefel y môr. Byddai'r gyfres bresennol o amddiffynfeydd i'r diben i gyd yn dod dan fwy o bwysau a byddai angen gwelliannau sylweddol gyda'r agwedd reoli bresennol at gynnal amddiffynfeydd. Yn gyffredinol byddai hyn yn creu sefyllfa lle byddai traeth yn tueddu i gael ei golli wrth i amddiffynfeydd ryngweithio'n fwy rheolaidd gyda phrosesau arfordirol. Y duedd yn yr hirdymor fyddai colli'r traeth uchaf yn raddol a chael amddiffynfeydd caletach ac uwch. Yn dechnegol gallai hyn fod yn gynaliadwy oherwydd y llwyfan craig waelodol. Fel agwedd gyffredinol ar hyd y lan i gyd gallai hyn fod yn anodd ei gyfiawnhau'n economaidd yn ystod y trydydd cyfnod a byddai'n newid tirwedd yr ardal yn sylweddol.

Nid yw CRhT1 yn rhoi ystyriaeth benodol i amddiffyn rhag llifogydd y tu cefn i'r dref. Fodd bynnag, gyda bwriad y senario hwn i gynnal cyfanrwydd y dref, gellid tybio y byddai amddiffyn yn parhau. Dim ond effaith fach fyddai hyn yn ei chael ar ardal lifogydd ddatblygol yr afon ac ni fyddai'n cael ei ystyried yn arwyddocaol. Mae'r rheilffordd yn tueddu i fod yn uwch na'r ffordd ac efallai nad yw mewn perygl llifogydd uniongyrchol. Dim ond ar y draphont fyddai yna unrhyw bwysau sylweddol ar arglawdd y rheilffordd ac ystyrir bod modd rheoli hyn.

Effaith gwahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr

Gyda chynnydd o 2m yn lefel y môr byddai perygl mwy cyffredinol o lifogydd yn ogystal â mwy o bwysau erydu dros yr ardal gyfan. Byddai perygl i'r ffordd ddeheuol a phosibilrwydd y gallai Llyn Maelog ddod yn fornant. Gyda'r senario hwn yr agwedd yw y byddai'r ffordd yn cael ei hamddiffyn. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol iawn ar werthoedd tirwedd yr adran a gallai beri colli amwynder sylweddol ar hyd y traeth gogleddol. Byddai ymateb yn y fath fodd hefyd yn dechrau cynyddu'r perygl y byddai Rhosneigr yn cael ei ynysu yn dilyn storm sylweddol.

Ar hyd blaen twyni RAF Valley y polisi presennol yw Gwneud Dim. Byddai hyn yn rhoi asedau lleol mewn perygl erydiad. Fodd bynnag, byddai mabwysiadu unrhyw agwedd arall yn dechrau effeithio'n sylweddol ar ddatblygiad naturiol a chyfanrwydd y gyfundrefn dwyni a byddai'n peri bod angen rheoli mwy ar y lan. Byddai canlyniadau arwyddocaol i hyn o ran gallu'r ardal gyfan i addasu i gynnydd yn lefel y môr, gyda phosibilrwydd effeithio ar Rosneigr o ran amddiffyn cynaliadwy ac amwynder.

*De-orllewin Ynys Gybi.* Mae polisi CRhT1 yn eithaf penodol o ran y prif faeau gyda'r bwriad o ddal i gadw'r llinell ym Mhorth Diana (Trwyn y Gigfran), Trearddur a Phorth Dafarch. Mewn cylchoedd eraill y polisi yw cadw'r llinell yn ddetholus sydd, yn nhestun y CRhT, yn awgrymu cynnal darnau lleol o amddiffynfa ar hyd llawer o'r lan.

Yn y Borthwen, caiff ei ystyried mai bwriad y senario hwn yw cynnal yr amddiffynfeydd caled wrth ganiatáu rhywfaint o newid naturiol ar hyd blaen meddalach y twyni. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r agwedd hon, bron yn ddiofyn, wedi golygu bod angen cynyddol i amddiffyn ar hyd y twyni wrth i'r amddiffynfa galed y tu ôl i ffordd y blaendraeth gynyddu pwysau fwyfwy ar y twyni. Bydd cynnal y mur hwn yn dal i wasgu ar ardal y blaendraeth wrth i lefel y môr gynyddu. Er bod llawer o'r ffordd yn rhedeg dros graig, bydd cyfnod ei defnyddio'n lleihau a bydd darnau meddal o'r blaendraeth yn tueddu i gael eu herydu. Ymhell o warchod y fynedfa bwysig hon bydd cynnal y mur yn arwain at ei cholli. Mae'r mur hefyd yn rhwystro cyflenwad gwaddod pwysig i'r bae a bydd yn cynyddu effaith y tonnau ar y glannau meddal i'r dwyrain. Gyda rheolaeth bresennol byddai hyn yn tueddu i gynyddu perygl llifogydd yn yr ardal y tu ôl i'r twyni.

Mae'r amddiffynfeydd lleol tuag at y pentiroedd yn tueddu i fod â'u sylfaen ar graig ac mewn rhan o'r bae sydd wedi'i gysgodi'n fwy naturiol. Tra byddai mater arian yn codi, nid yw'n cael ei ystyried bod yr amddiffynfeydd hyn yn effeithio yn y bôn ar sut mae'r bae cyfan yn gweithio.

Mewn cylchoedd eraill, mae materion tebyg yn ymwneud â'r ymateb i'r traeth o ran rhyngweithiad tonnau gydag amddiffynfeydd. Gyda chynnydd o 1m yn lefel y môr dros y 100 mlynedd nesaf mae'r agwedd at amddiffyn yn gynaliadwy'n dechnegol ac, oherwydd pwysigrwydd cynnal mynediad a'r iawndal economaidd sylweddol y gallai hynny beri (fel y dangoswyd yn y gwaith diweddar a wnaed yn Nhrearddur), byddai modd cyfiawnhau'r agwedd hon. Fodd bynnag, tua diwedd y trydydd cyfnod neu'n gynharach gyda mwy o gynnydd yn lefel y môr, bydd materion cynyddol cysylltiedig â

cholli traeth ac anhawster cynnal y drefn bresennol heb ddifrod sylweddol i dirwedd ac amwynder.

*Caergybi a Phenrhos.* Polisi CRhT1 yw dal i amddiffyn Caergybi. Mae hwn yn dechnegol ymarferol er y byddai angen addasu rhywfaint ar ardal yr harbwr i roi sylw i fater gweithrediad ac amddiffyn gyda chynnydd yn lefel y môr. Ym Mhenrhos bwriad rheoli presennol yw caniatáu datblygiad naturiol y bae, gan amddiffyn rhag llifogydd y tu ôl iddo. Gyda mwy o gynnydd yn lefel y môr mae perygl llifogydd i'r gwaith alwminiwm yn ystod digwyddiadau eithafol. Seiliwyd y polisi presennol hwn ar fod dim perygl sylweddol dros y cyfnod o 50 mlynedd. Fel y cyfryw, gall y polisi Gyda Rheoli Presennol beri bod perygl annerbyniol yn y tymor hwy, sydd ychydig yn anghyffredin. Fodd bynnag, mae'r cysyniad sylfaenol o ganiatáu ymddygiad naturiol y draethlin yn gadarn. Mewn cylchoedd lleol eraill mae'r polisi ar gyfer y lan ychydig yn niwlog. Yr awgrym yw dal i amddiffyn eiddo unigol lle maent mewn perygl. Mae hyn yn annhebygol o ddenu cyllid cenedlaethol. Byddai'n dod yn fwyfwy anodd rheoli amddiffynfeydd yn breifat ond ni fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y broses ehangach.

Gyda'r senario hwn mae'n cael ei dderbyn y byddai'r morglawdd allanol a'r arglawdd yn cael eu cynnal. O dderbyn effaith sylweddol eu colli caiff hyn ei ystyried yn dechnegol ymarferol a buddiol i'r cylch. Mae materion yn codi bob amser gyda rheoli adeiledd sylweddol fel y morglawdd. Pe na bai modd cynnal yr adeiledd hwn byddai'r effeithiau mwyaf sylweddol ar ardal yr harbwr. Hyd yn oed wedyn byddai polisi cynnal ardal yr harbwr yn dal i fod yn un dilys.

*Y Môr Mewndirol.* Polisi CRhT1 ar gyfer yr ardal gyfan yw Gwneud Dim neu Ddim Ymyriad Gweithredol. O dderbyn y materion llifogydd cysylltiedig yn arbennig â'r Fali, byddai'r polisi hwn yn peri difrod sylweddol iawn i eiddo ac i'r isadeiledd cludiant. O ran y bwriad i gynnal hyfywedd economaidd y rhanbarth nid yw'r polisi hwn yn cael ei ystyried yn ymarferol. Fodd bynnag, mewn perthynas ag ardal fwy'r Môr Mewndirol caiff polisi datblygiad naturiol y culfor ei ystyried yn gyffredinol briodol mewn egwyddor. Mae materion yn codi ynghylch y mynediad ym Mhontrhydybont a materion cysylltiedig ag amddiffyn rhai llwybrau cludiant lleol ond pwysig yn y pen draw ac o ran posibilrwydd llifogydd trwodd i Drearddur. Fel y cyfryw, nid yw'r polisi cyfredol yn adlewyrchu'r amcanion ar gyfer y cylch ehangach yn fanwl.

*Newlands a rhan ogleddol yr arfordir.* Y polisi ar yr arfordir i'r gogledd yw cadw'r llinell yn ddetholus yn Newlands a Gwneud Dim neu adlinio rheoledig lleol ymhellach i'r gogledd. Tanseiliwyd y polisi yn Newlands i raddau gan ddatblygiad pellach ar hyd pen y clogwyn ers CRhT1. Gyda rheoli presennol mae hyn yn peri bod mwy o angen amddiffyn yr ardal hon. Gall hyn fod yn dechnegol ymarferol ond gallai effeithio er gwaeth ar yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a hefyd effeithio ar nodweddion y SoDdGA. Mae'r datblygiad hwn yn groes i'r bwriad o leihau'r angen am amddiffynfeydd ychwanegol ac mae'n cynyddu dibyniaeth ar amddiffyn yn y dyfodol.

## 4 Cymhariaeth ac Asesiad Cryno o Senarios man cychwyn.

Mae Tabl 1 yn cymharu'r iawndal economaidd a allai fod dan y ddau senario man cychwyn. Mae Tabl 2 yn rhoi cymhariaeth gryno o ran yr amcanion cyflawn seiliedig ar y materion allweddol a nodwyd yn y cyflwyniad i'r Ardal Arfordirol hon.

Caiff iawndal erydiad ac iawndal cysylltiedig â llifogydd eu nodi ar wahân yn Nhabl 1. Nod y tabl hwn yw dangos y difrod economaidd a allai godi oherwydd llifogydd neu erydiad. Fel y cyfryw, nid yw eiddo a allai gael ei golli yn y dyfodol oherwydd erydiad yn cael eu hepgor wrth asesu llifogydd. Yn yr un modd, mae eiddo a allai fod wedi colli ei holl werth oherwydd difrod llifogydd rheolaidd yn dal i gael ei gynnwys wrth asesu erydiad. Mae'n amlwg nad yw agwedd o'r fath yn cyd-fynd yn hollol ag arfarniad economaidd arferol ar lefel strategaeth neu gynllun. Fodd bynnag, mae'n cael ei ystyried yn briodol ar lefel uwch asesiad y CRhT gyda'i nod hanfodol o nodi lle all fod ffurfiau gwahanol ar berygl wrth asesu gwahanol senarios. Os oes teimlad bod hyn yn ystumio'r asesiad economaidd yn anghymesur yna caiff hyn ei nodi yn Atodiad H a'r achos economaidd yn cael ei addasu o ganlyniad.

Caiff yr asesiad o ddifrod economaidd ei wneud trwy ddefnyddio Fframwaith Cynnal Modelu a Phenderfynu (MDSF) symlach. Yn achos erydiad, mae'r offeryn hwn seiliedig ar GIS yn cymryd y pellter erydiad disgwyliedig ar gyfer unrhyw ddarn o'r arfordir ar sail asesiad o'r erydiad erbyn diwedd pob cyfnod. Yna mae'n cael ei gymryd y byddai cyflymder erydu llinellol rhwng y llinellau amser hyn (e.e. byddai disgwyl i eiddo sy'n sefyll hanner ffordd rhwng llinell amser cyfnod 1 (20 mlynedd) a llinell amser cyfnod 2 (50 mlynedd) gael ei golli ymhen 35 mlynedd). Caiff pob eiddo ei ddiffinio fel pwynt unigol yn hytrach nag yn ôl ei ôl troed llawn. Ni chaiff colli mynediad neu wasanaethau ei gyfrif yn yr asesiad, er bod hyn yn cael ei drafod yn y testun pan fo'n allweddol. Yna mae'r dull MDSF yn tynnu gwybodaeth o gronfa ddata eiddo, gan roi gwybodaeth gyffredinol mewn perthynas â'r eiddo hwnnw. Caiff gwerth yr eiddo ei ostwng o ran pryd all yr eiddo hwnnw gael ei golli.

Yn achos llifogydd, caiff lefelau dŵr arfordir agored eu hasesu gyferbyn â lefelau trothwy cysylltiedig ag eiddo unigol seiliedig eto ar y gronfa ddata ffynhonnell bwynt eiddo. Ni wnaed unrhyw fodelu manwl i asesu llwybrau llifo a/neu gynnydd posibl mewn lefelau dŵr oherwydd prosesau aberol. Pan fo amddiffynfa rhag llifogydd yn methu neu'n cael ei threchu, mae'n cael ei gymryd bod yr ardal lifogydd i gyd y tu ôl i'r amddiffynfa'n agored i lifogydd ac y byddai llifogydd yn digwydd ar hyd a lled y gorlifdir, dros gyfnod penllanw unigol. Caiff iawndal ei asesu mewn perthynas â dyfnder llifogydd fyddai'n digwydd ar sail y math o eiddo a nodwyd yn y gronfa ddata. O'r asesiad hwn o ddifrod llifogydd all ddigwydd gydag unrhyw lefel dŵr penodol, caiff cyfartaledd blynyddol iawndal llifogydd ei benderfynu yn ystod pob cyfnod. Caiff cyfartaledd blynyddol gwerth difrod ei gymryd rhwng y presennol (2010) ac ymhen 50 mlynedd (2060) a rhwng 2060 a 2110. Caiff y gwerth cyfartalog hwn ei gymryd wrth benderfynu amcangyfrif o Werth Presennol (PV) Iawndal gostyngol dros gyfnod y CRhT. Mae'r agwedd syml hon yn caniatáu ystyried perygl llifogydd dan wahanol ragfynegiadau cynnydd yn lefel y môr ar gyfer gwahanol senarios.

## Tabl 1. Asesiad Economaidd

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o iawndal erydiad a bennwyd gan ddadansoddiad MDSF CRhT2 ar gyfer y PDZ cyfan. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad H. Pan fo astudiaethau'n darparu gwybodaeth fanylach, mae hyn yn cael ei nodi. Bwriad y tabl yw rhoi asesiad lefel uchel dechreuol o iawndal all godi dan y ddau senario man cychwyn.

### ASESIAD O IAWNDAL ERYDIAD

| Cyfnod | 0 – 20 mlynedd | | | 20 – 50 mlynedd | | | 50 – 100 mlynedd | | | 50 – 100 mlynedd (2m o gynnydd yn lefel y môr) | | Gwerth Presennol Iawndal (£x1000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dim Ymyriad Gweithredol** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo** | | |
| *Lleoliad* | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | |
| Ardal Aberffraw | | | | | | | | 1 | 186 | | | 13 |
| Rhosneigr | | 0 | 0 | 0 | 9 | 218 | 7 | 4 | 1529 | 14 | 15 | 230 |
| Ardal Trearddur | | 1 | 204 | 1 | 0 | 204 | 2 | 6 | 1250 | 4 | 8 | 298 |
| Caergybi | | | | | | | | 1 | 204 | | 1 | 10 |
| Y Môr Mewndirol | | | | | | | | 1 | 204 | | 1 | 32 |
| Newlands | | | | 1 | | 204 | 5 | | 572 | 18 | 3 | 140 |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ1** | **723** |
| **Gyda Rheoli Presennol** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)** |
| *Lleoliad* | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | |
| Ardal Aberffraw | 0 | | | | | | | | | | | |
| Rhosneigr | | | | | | | 6 | 1 | 763 | 9 | 1 | 55 |
| Ardal Trearddur | | | | | | | 1 | | 204 | 1 | 204 | 13 |
| Caergybi | | | | | | | | | | | | |
| Y Môr Mewndirol | | | | | | | 1 | | 240 | 1 | 1 | 32 |
| Newlands | | | | | | | 5 | | 573 | 18 | | 72 |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ1** | **172** |

Nodiadau: Pennwyd gwerth presennol iawndal ar gyfer 1m o gynnydd yn lefel y môr mewn 100 mlynedd.

Gwybodaeth arall:

Pennwyd yr iawndal llifogydd canlynol trwy ddefnyddio MDSF. Amcan y ffigurau hyn yw nodi maint ac effaith perygl llifogydd yn hytrach na bod yn arfarniad economaidd manwl. Mewn llawer o ardaloedd byddai niferoedd sylweddol o eiddo'n agored i lifogydd gyda'r digwyddiadau amlach dan Dim Ymyriad Gweithredol a Gyda Rheoli Presennol, caniatawyd gwerth enwol colled ulw yn y tabl ar gyfer eiddo mewn perygl aml; nid yw hyn yn gyffredinol yn cynnwys gwerthoedd mewn perygl ar hyn o bryd ar gyfer y digwyddiad 1:1 flwyddyn, ymhen 50 mlynedd ar gyfer y digwyddiad 1:10 mlynedd ac ymhen 100 mlynedd ar gyfer y digwyddiad 1:50 mlynedd.

**ASESIAD O BERYGL LLIFOGYDD**

| | Perygl llifogydd llanwol 2010 | | | Perygl llifogydd llanwol 2060 | | | Perygl llifogydd llanwol 2110 | | | perygl llanwol 2m o gynnydd yn lefel y môr | | Gwerth Presennol Iawndal (£x1000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dim Ymyriad Gweithredol** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | |
| *Lleoliad* | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | |
| Arall | 0 | 7 | 4 | 0 | 7 | 22 | 0 | 12 | 51 | 16 | 3 | 423 |
| Aberffraw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 0.64 | 8 | 5 | 2 |
| Rhosneigr | 0 | 14 | 3 | 0 | 25 | 29 | 0 | 43 | 138 | 58 | 36 | 729 |
| De Ynys Gybi | 0 | 45 | 35 | 0 | 54 | 200 | 0 | 73 | 364 | 103 | 28 | 3518 |
| Trearddur | 0 | 82 | 14 | 0 | 110 | 45 | 0 | 138 | 448 | 0 | 188 | 2054 |
| Caergybi | 0 | 73 | 95 | 0 | 82 | 501 | 0 | 132 | 581 | 170 | 59 | 7888 |
| Y Fali | 0 | 156 | 112 | 0 | 171 | 619 | 0 | 207 | 849 | 233 | 25 | 10062 |
| Penrhyn | 0 | 2 | 0.26 | 0 | 6 | 2 | 0 | 8 | 24 | 9 | 1 | 95 |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ17** | 24772 |

| **Gyda Rheoli Presennol** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Lleoliad* | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | |
| Arall | 0 | 7 | 1 | 0 | 7 | 3 | 0 | 12 | 11 | 0 | 19 | 85 |
| Aberffraw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 0.30 | 0 | 13 | 0.95 |
| Rhosneigr | 0 | 14 | 2 | 0 | 25 | 8 | 0 | 43 | 20 | 0 | 94 | 163 |
| De Ynys Gybi | 0 | 45 | 18 | 0 | 54 | 25 | 0 | 73 | 42 | 0 | 131 | 679 |
| Trearddur | 0 | 82 | 8 | 0 | 110 | 26 | 0 | 138 | 59 | 0 | 188 | 544 |
| Caergybi | 0 | 73 | 46 | 0 | 82 | 50 | 0 | 132 | 118 | 0 | 229 | 1642 |
| Y Fali | 0 | 156 | 57 | 0 | 171 | 67 | 0 | 207 | 179 | 0 | 258 | 2169 |
| Penrhyn | 0 | 2 | 0.22 | 0 | 6 | 1 | 0 | 8 | 8 | 0 | 10 | 37 |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ17** | 5321 |

## Tabl 2. Asesiad Cyffredinol o Amcanion

Mae'r tabl canlynol yn rhoi asesiad at ei gilydd o sut mae'r ddau senario man cychwyn yn effeithio ar yr amcanion cyflawn. Caiff amcanion penodol eu cyflwyno'n fanylach yn Atodiad E. Bwriad y tabl yw rhoi asesiad lefel uchel dechreuol o'r ddau senario man cychwyn, gan dynnu sylw at bynciau llosg all godi. Caiff y materion hyn eu trafod yn yr adran ganlynol, gan edrych ar wahanol senarios rheoli y bydd polisi CRhT2 yn deillio ohonynt wedyn.

| AMCAN RHANDDEILIAD | NAI | | | WPM | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Methu | Diduedd | Derbyniol | Methu | Diduedd | Derbyniol |
| Lleihau perygl i fywyd. | ■ | | | ■ | | |
| Amddiffyn eiddo rhag colled trwy lifogydd ac erydiad. | ■ | | | ■ | | |
| Lleihau cymaint â phosibl yr angen i gynyddu ymdrech a rheoli amddiffynfeydd arfordirol. | | | ■ | ■ | | |
| Osgoi dibynnu ar amddiffyniad yn enwedig lle mae perygl methiant trychinebus | | | ■ | ■ | | |
| Cynnal mynediad i ganolfannau lleol, pentrefi ac eiddo ar wahân | ■ | | | | | ■ |
| Cynnal canolfannau lleol pwysig sy'n cefnogi cymunedau llai | | ■ | | | | ■ |
| Cynnal defnydd adloniadol o'r traethau a'r baeau. | ■ | | | | ■ | |
| Cynnal mynediad at yr arfordir gan gynnwys parcio ar gyfer ceir a chyfleusterau. | ■ | | | | ■ | |
| Cynnal mynediad ar gyfer defnyddio cychod a gweithgaredd chwaraeon dŵr cysylltiedig. | ■ | | | | ■ | |
| Cynnal Caergybi fel canolfan fasnachol hyfyw a chefnogi cyfleoedd adfywio | ■ | | | ■ | | |
| Cynnal gweithrediad RAF Valley | | | ■ | | | ■ |
| Cynnal cymeriad a chyfanrwydd cymunedau arfordirol. | ■ | | | | ■ | |
| Cynnal gwerth amaethyddol cymunedau gwledig | | ■ | | | ■ | |
| Nodi perygl a lleihau perygl colli nodweddion treftadaeth lle bo modd. | ■ | | | | | ■ |
| Cynnal tirwedd hanesyddol. | ■ | | | | | ■ |
| Atal dirywiad neu darfu ar safleoedd hanesyddol a'u hamgylchedd. | ■ | | | | ■ | |
| Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd dynodedig rhyngwladol (ACA, AGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig. | | | ■ | | | ■ |
| Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd dynodedig cenedlaethol (SoDdGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig. | | ■ | | ■ | | |
| Cynnal a gwella dealltwriaeth addysgol a gwyddonol o ddaeareg a geomorffoleg. | | | ■ | | | ■ |
| Osgoi difrodi'r dirwedd naturiol a'i gwella. | | | ■ | ■ | | |
| Cynnal y dirwedd ddynol a chymeriad cymunedau. | ■ | | | ■ | | |
| Cynnal y cysylltiadau ffordd a rheilffordd i Gaergybi a RAF Valley | ■ | | | ■ | | |
| Cynnal Caergybi fel porthladd gweithredol | ■ | | | | | ■ |
| Cynnal mynediad i anheddau mwy ar gyfer cymunedau amaethyddol llai | ■ | | | ■ | | |

## 5 Trafodaeth a Datblygu Polisi Manwl

Mae materion arwyddocaol mewn perthynas â'r naill neu'r llall o'r ddau senario man cychwyn. Mae CRhT1 yn ceisio llywio cwrs rheoli sy'n caniatáu swyddogaeth naturiol y morlin ac mae'n cyflawni yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn fanylach nodwyd peryglon newydd, i'w priodoli'n fawr i effaith newid yn yr hinsawdd ac oherwydd anhawster ceisio rhoi sylw i faterion lleol penodol ar lefel polisi. Dyma ardal lle gall y materion lleol hyn mewn gwirionedd effeithio'n eithaf sylweddol ar reoli'r ardal yn gyffredinol ac ar y bwriad mwy hwnnw o gadw cymeriad a gwerthoedd yr ardal.

Yn fras, mae hybwyr allweddol o ran Caergybi, cynnal y gyfundrefn gludiant ranbarthol a chynnal yr amgylchedd a thirwedd o safon. Yn ogystal â'i werth cynhenid mae'r olaf o'r materion allweddol hyn hefyd yn sail i atyniad hanfodol bwysig yr ardal i dwristiaeth ac fel lle i fyw.

O ran cynllun a pholisi cyflawn CRhT2, felly, caiff y polisïau canlynol eu datblygu ar sail y materion allweddol hyn:

Y polisi yng Nghaergybi yw Cadw'r Llinell i gynnal y canolbwynt masnachol pwysig hwn ac i gynnal y gyfundrefn gludiant ranbarthol a chenedlaethol. Yn yr un modd, y polisi mewn cysylltiad â Chob y Fali yw cadw'r llinell neu gynnal yr arglawdd hwn i bob diben. Ni ystyrir yn y naill leoliad na'r llall bod hyn yn groes i'r bwriad o leihau'r angen am amddiffynfa nac yn effeithio ar yr amgylchedd na'r dirwedd naturiol. Caiff y polisïau hyn eu hystyried yn dechnegol ac yn economaidd ymarferol.

Yn ogystal, mewn cylchoedd eraill lle nad oes unrhyw faterion rheoli arwyddocaol, y polisi yw gadael i'r arfordir ddatblygu mewn ffordd naturiol.

O fewn y polisïau penodol a chyffredinol hyn, caiff y cynllun ar gyfer ardaloedd manylach ei drafod isod.

*Traethlin y De-orllewin.* Mae polisi cyffredinol caniatáu datblygiad naturiol yr arfordir yn berthnasol i'r lan hon gan gydnabod y materion penodol yn Aberffraw a Rhosneigr.

Yn Aberffraw, y bwriad yw caniatáu datblygiad naturiol y gyfundrefn dwyni bwysig yn amgylcheddol a'r draethlin graig galed naturiol. Wrth lan y môr ni fyddai unrhyw fwriad i ymyrryd â phrosesau naturiol. Y prif fater o ran yr amgylchedd adeiledig yw'r rhwydwaith ffyrdd. Mae hwn yn darparu mynediad pwysig i gymunedau lleol ar hyd yr arfordir ac yn eu cynnal.

O fewn yr aber byddai'r ffordd mewn perygl mwy o lifogydd gyda chynnydd yn lefel y môr. Gall hyn ddod yn argyfyngus yn ystod y trydydd cyfnod. Yn hytrach na chynyddu uchder amddiffynfeydd y ffordd neu'r ffordd ei hun, wrth i'r perygl llifogydd ddechrau effeithio ar swyddogaeth y ffordd, dylid ystyried addasu naill ai ei defnydd fel sarn rynglanwol neu ymestyn rhychwant y darnau a bontiwyd. Byddai hyn yn cadw cyfle i gynnal aber yn gweithredu'n naturiol. Mewn perthynas â hyn, caiff y perygl llifogydd i'r cei ac i eiddo ei ystyried yn fach a dylai canolbwynt rheoli'r perygl gweddilliol fod ar addasu eiddo a'i ddefnydd. Gyda bwriad tebyg ym Mhorth Trecastell, wrth i'r maes parcio a'r ffordd ddechrau bod mewn perygl, y nod ddylai fod symud y maes parcio, gan greu lled ychwanegol yn y gyfundrefn naturiol ac, os bydd angen, lleihau difrod erydiad i'r ffordd, gan adeiladu amddiffynfeydd sy'n hybu yn hytrach nag atal trechu. Fel hyn byddai ffurf naturiol y traeth yn cael ei gynnal yn ystod cyfnod y CRhT, heb greu rhwystr copa a allai arwain at ostwng lefel y traethau.

Y polisi cyffredinol ar gyfer y lan i gyd rhwng Porth Nobla a cheg y Môr Mewndirol fyddai hybu datblygiad naturiol y draethlin, gan weithio mor bell ag y bo modd gyda'r brigiadau craig naturiol a swyddogaeth naturiol y twyni fel amddiffynfa rhag llifogydd.

Ni ystyrir bod angen hirdymor i amddiffyn Porth Nobla. Yng Ngherrig y Defaid, nid yw'n cael ei ystyried yn gynaliadwy amddiffyn y pentir bach hwn yn y pen draw. Ar hyn o bryd mae amddiffynfeydd preifat i eiddo. Mae'n dderbyniol dal eu cynnal yn y tymor byr i ganolig a byddai'r CRhT yn cefnogi gwaith preifat mewn egwyddor. Fodd bynnag, byddai ymestyn neu gynyddu uchder amddiffynfeydd yn sylweddol yn dechrau effeithio'n arwyddocaol ar fwriad ehangach cynnal swyddogaeth y draethlin a'r dirwedd a byddai'n cychwyn ar fwriad tymor hwy i amddiffyn na fyddai'n cael ei ystyried yn gynaliadwy. Gan wneud y gwahaniaeth hwn o ran polisi i gyflawni'r cynllun hwn, y polisi ar gyfer yr ardal gyfan fyddai adlinio rheoledig gyda Dim Ymyriad Gweithredol yn y trydydd cyfnod.

Byddai rheoli cyfundrefn dwyni Traeth Llydan yn hybu treiglo'n ôl naturiol gyda dim ymyriad gweithredol. Nid yw'r ffordd mewn llawer o berygl erydiad a byddai hyn yn cynorthwyo'r lan i addasu'n raddol, gan gynnal defnydd amwynder pwysig a rhoi cyfle i Lyn Maelog y tu ôl addasu'n naturiol o amgylchiadau croyw i led-hallt os digwydd hynny. Wrth i hyn ddigwydd, ac efallai berygl llifogydd cynyddol neu agor ceg letach, y bwriad fyddai ystyried sut ellid cynnal y ffordd fel ag i beidio ag ymyrryd ar ddatblygiad naturiol y draethlin. Yn gysylltiedig â rheoli'r ardal hon mae rheoli prif lan môr Rhosneigr.

Ar hyn o bryd, nid yw'r amrediad ac agwedd gyffredinol ddi-drefn at amddiffyn yn ychwanegu llawer at dirwedd ac amwynder yr ardal. Fodd bynnag, nid yw'r amddiffynfeydd hyn yn cael eu hystyried mewn perygl dybryd, o'u cynnal. Yn y dyfodol, wrth i amddiffynfeydd ddod dan fwy o bwysau, byddai modd cyfuno'r amddiffynfa naturiol gydag adlinio mwy rheoledig o bwyntiau allweddol ar y lan. Byddai angen ystyried hyn o ran nodwedd SoDdGA y blaendraeth ond gyda'r bwriad o reoli hyn fel pentir lled-naturiol i'r dyfodol. Mae'n cael ei ystyried yn ymarferol rheoli amddiffynfeydd presennol a pherygl erydu yn ystod y ddau gyfnod cyntaf. Y bwriad yn ystod y trydydd cyfnod fyddai adlinio'r glannau'n gyffredinol i ddefnyddio lle o flaen a thu ôl i'r amddiffynfeydd. Byddai angen datblygu agwedd o'r fath ar y cyd â'r gymuned ac ar sail cadw golwg ar ymddygiad y blaendraeth presennol. Byddai agwedd o'r fath yn caniatáu trawsnewid i'r polisi Dim Ymyriad Gweithredol hirdymor tua'r de a byddai'n cael ei ddatblygu gyda'r bwriad o gynnal gwell lefel traethau hirdymor yn wyneb cynnydd yn lefel y môr ar ystlys ogleddol y dref. Byddai angen datblygu'r agwedd adlinio hon yn ystod yr ail gyfnod a'r bwriad yn y pen gogleddol fyddai gweithio gyda datblygiad naturiol y twyni a'r gyfundrefn aberol i'r gogledd.

Nid newid sefyllfa'r amddiffynfeydd ar raddfa eang mo hyn ond, yn hytrach, yr angen i nodi'r amddiffynfeydd hynny fydd yn cyfyngu ar allu'r traeth i addasu i gynnydd yn lefel y môr. Mae angen ystyried hyn o ran rheoli cynllunio datblygiad a chynigion ar gyfer rheoli amddiffynfeydd preifat yn y dyfodol.

Y tu cefn i Rosneigr, bwriad y cynllun fyddai cynnal mynediad at y dref ar hyd ymyl yr aber. Mewn egwyddor byddai hyn yn bolisi cadw'r llinell. Yn ymarferol gall hyn olygu rhywfaint o adlinio'r ffordd fynediad i fanteisio ar dir uwch.

Rhwng aber Afon Crigyll a cheg y Môr Mewndirol byddai'r polisi'n aros fel Dim Ymyriad Gweithredol. Gallai hyn ofyn symud cyfleusterau ac adeiladau yn RAF Valley i ganiatáu datblygiad y twyni. Byddai hyn yn gofyn ymgynghori lleol.

*De-orllewin Ynys Gybi.* Yn yr ardal hon a'r holl ffordd i Gaergybi, caiff polisi cyffredinol CRhT1 o Ddim Ymyriad Gweithredol ei gadarnhau. O fewn y bwriad ehangach hwn mae cylchoedd lleol lle mae angen rheoli.

Yn y Borthwen, nod y cynllun fyddai caniatáu i'r bae weithredu'n fwy naturiol. Caiff y materion cyfreithiol o ran cynnal ffordd fynediad y blaendraeth eu cydnabod, ond nid yw'r arfer cyfredol o gynnal darn y mur sy'n gwarchod y clogwyn clai yn cael ei ystyried yn gyson â rheolaeth hirdymor y llwybr mynediad hwn. Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae'r mur hwn eisoes yn achosi erydu'r twyni naturiol ac, oherwydd sefyllfa sefydlog y mur, mae hyn wedi gofyn gwneud gwaith i gynnal llinell y twyni. Yn ogystal, mae'r mur yn achosi mwy o effaith tonnau dros y blaendraeth yn union o'i flaen a bydd hyn yn peri cyflymu gostyngiad y blaendraeth. Mewn cylchoedd eraill o gwmpas y bae nid yw'n cael ei ystyried bod amddiffynfeydd preifat lleol yn effeithio ar y bae cyfan a, thra bo'n annhebygol y bydd cyllid o ran grant llifogydd ac amddiffyn yr arfordir, ni welir unrhyw reswm ar hyn o bryd dros rwystro rheoli'r amddiffynfeydd lleol hyn yn breifat. Y polisi ar reoli'r bae fyddai Adlinio Rheoledig gyda'r polisi hirdymor o Ddim Ymyriad Gweithredol.

Edrychodd y gwaith cloriannu prosiect diweddar yn Nhrearddur ar gynaliadwyedd hirdymor a chyfiawnhad dros ddal i reoli'r lan. Mae perygl gyda mwy o gynnydd yn lefel y môr yn y pen draw y bydd gofyn gwneud rhagor o waith i gynnal yr amddiffynfa ac y gallai fod mwy o erydu a cholli traeth. Tra bo'r cynllun presennol yn edrych ar adael i weithrediad mwy naturiol y gyfundrefn dwyni ddal i amddiffyn rhag llifogydd, fe all hefyd fod angen rheoli mwy i ddal gafael ar y traeth pwysig. Y polisi ar gyfer y lan hon fyddai Cadw'r Llinell.

Mewn baeau eraill, mae problemau tebyg neu fe all fod yn y dyfodol. Fel gyda ChRhT1, y polisi cyflawn fyddai dal i Gadw'r Llinell. Fodd bynnag, wrth wneud hynny mae angen cydnabod y perygl hirdymor hwn o golli traeth a gwasgu. Lle bo modd, yr argymhelliad fyddai creu lled yn y cefndraeth naill ai trwy adlinio'r ffordd neu drwy addasu amddiffynfeydd i weithio'n well gyda ffurf naturiol y traeth neu fel arall edrych ar gynyddu dylanwad pentiroedd i leihau ynni'n effeithiol cyn iddo gyrraedd y baeau. Fel y cyfryw, tra mai'r polisi penodol ar gyfer ardaloedd fel Porth Diana, Trearddur a Phorth Dafarch yw Cadw'r Llinell, byddai'r polisi mwy cyffredinol ar gyfer y lan gyfan hon o faeau bach yn cael ei ddisgrifio orau fel un o Adlinio Rheoledig yn y trydydd cyfnod.

*Caergybi a Phenrhos.* Y polisi o gwmpas harbwr a thref Caergybi yw Cadw'r Llinell. Tua'r dwyrain y bwriad yw hybu'r gyfundrefn arfordirol i weithredu'n naturiol. Yn benodol o ran Bae Penrhos, mae peth perygl llifogydd hirdymor i'r ardaloedd datblygedig y tu ôl. Mae angen edrych yn fanylach ar hyn. Serch hynny, rheolaeth hyn yw dal i ganiatáu ymddygiad naturiol cyfundrefn y draethlin. Ar hyn o bryd yr amddiffynfeydd o gwmpas Bae Penrhos yw'r traeth naturiol sydd wedi datblygu i greu ysgafell ddyrchafedig naturiol yng nghefn y traeth. Nid yw hyn yn rhoi amddiffyniad cyflawn yn erbyn llifogydd eithafol ond mae'n creu llinell gyntaf bwysig o amddiffyniad. Byddai caniatáu newid naturiol yn darparu cyfundrefn amddiffyn rheng flaen gynaliadwy y bydd angen ychwanegu ati yn y dyfodol efallai gydag amddiffynfa ymhellach yn ôl ar gyfer mannau sydd mewn perygl penodol. Fel y cyfryw, y cynllun yw rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol a'r polisi fyddai Adlinio Rheoledig.

Gyda chynnydd yn lefel y môr, bydd y traeth naturiol yn ceisio addasu fel bod yr ysgafell naturiol yng nghefn y traeth yn tueddu i adeiladu'n naturiol. Byddai ymyriad mwy gweithredol ym mlaen symudol y traeth, yn rhwystro'r ymateb naturiol hwn. Byddai camau o'r fath, er enghraifft adeiladu rhagfur ac arglawdd ffurfiol ar grib y traeth, yn ceisio angori'r draethlin i'w sefyllfa bresennol. Wrth i bwysau gynyddu gyda chynnydd yn

lefel y môr, yr ymateb naturiol nodweddiadol fyddai i lefel blaen y traeth ostwng. Byddai hyn, yn ei dro, yn arwain at ymateb trwy ymyriad ac atgyfnerthu'r amddiffynfa ar grib y traeth, gan arwain at gylch parhaus o golli traeth a buddsoddi eto mewn amddiffynfeydd.

Bwriadu polisi'r CRhT yw atal y senario hwn rhag datblygu yn y lle cyntaf. Rhaid pwysleisio mai'r polisi yw Adlinio Rheoledig yn hytrach na Dim Ymyriad Gweithredol. Mae perygl llifogydd i'r gefnwlad yn cael ei gydnabod a bwriad y cynllun fyddai datblygu amddiffynfa rhag llifogydd yn ôl o ardal y draethlin weithredol yn ôl gofynion y dyfodol neu o ganlyniad i asesiad mwy manwl o berygl llifogydd. Dylai unrhyw ddatblygiad o'r ardal ystyried buddiannau caniatáu datblygiad naturiol y draethlin ac osgoi unrhyw angen i ddarparu amddiffynfa fwyfwy beichus i wyneb symudol y traeth.

*Y Môr Mewndirol*. Y bwriad at ei gilydd yn yr ardal hon fyddai caniatáu datblygiad naturiol y culfor, yn arbennig trwy ganiatáu llifogydd mwy o fewn y ceinciau a chilfachau oddi ar y brif sianel.

Ym Mhontrhydybont, byddai cynnal amddiffynfeydd lleol yn yr ardal hon yn cael ei ystyried yn briodol gyda'r bwriad penodol o gynnal y llwybr mynediad i Ynys Gybi. Gyda'r cafeat hwn nid yw'n cael ei ystyried bod hyn yn gwrthdaro â'r polisi mwy cyffredinol. Yn ogystal, dan bolisi diamod o Ddim Ymyriad Gweithredol, gallai materion godi ynghylch llifogydd yn Nhrearddur ac i ffyrdd lleol pwysig yn Ne-orllewin Ynys Gybi. Mae'n ymarferol a buddiol rheoli'r cylchoedd penodol hyn sydd mewn perygl. Gan gydnabod y materion rheoli hyn, byddai'r polisi cyffredinol yn cael ei newid i Adlinio Rheoledig, ond gyda'r bwriad cryf o ganiatáu gweithrediad naturiol yr ardal.

Y mater pwysicach sy'n codi yw amddiffyn y Fali. Heb amddiffynfa o'r fath byddai isadeiledd cludiant pwysig mewn perygl sylweddol. Ni fyddai hyn yn cyflawni amcanion allweddol. Yn ôl y CRhLlD mae modd rheoli ffynonellau eraill llifogydd yn y cylch. Fodd bynnag, byddai amddiffyn yr ardal yn gofyn gwella'r llifddor a'r arglawdd presennol yn sylweddol ac, yn y tymor hwy, rhywfaint o bwmpio oherwydd mwy o gloi llanwol. Caiff y polisi penodol i amddiffynfa'r ardal hon o Gadw'r Llinell a gwella amddiffynfeydd yn unol â chynnydd yn lefel y môr ei ystyried yn gynaliadwy yn ystod holl gyfnodau'r CRhT. Fodd bynnag, o ystyried y tu hwnt i'r 100 mlynedd, mae angen bod â bwriad cynllunio gofodol i leihau perygl trwy bolisi o newid.

